



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium



Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

Medi 2020

Fframwaith ar gyfer Gwella Ysgolion

Fersiwn Derfynol


Cynnwys

Adran 1: Sut mae Consortiwm Canolbarth y De yn Cefnogi Gwella Ysgolion ar draws y Rhanbarth	4
1.1 Cyd-destun a Deilliannau Addysgol ar draws Canol De Cymru	4
1.2 Rôl Y Consortiwm: Darparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion ar ran Awdurdodau Lleol	5
1.3 Tasgau Craidd y Consortiwm	7
1.4 Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella	8
1.5 Sut Rydym Ni'n Gweithio	10
1.6 Rolau a Chyfrifoldebau yn y Consortiwm	11
1.7 Atebolrwydd a Chyllid	12
Adran 2: Prosesau Allweddol Ar Gyfer Gwella Ysgolion	13
2.1 Gwybodaeth am Ysgolion	13
2.2 Swyddogaethau Cefnogi	15
2.3 Cymryd Rhan mewn Sgyrsiau ag Ysgolion	17
2.4 Gweithio Gydag Ysgolion Lle roedd Y Categori Cymorth yn 2019-20 yn Goch neu'n Ambr ac mae'r Strategaeth Ymyrraeth ar gyfer Ysgolion sy'n Peri Pryder yn Berthnasol	18
2.5 Monitro ac Adrodd ar Gynnydd Ysgolion – Dibenion Allweddol	20
2.6 Monitro ac Adrodd ar Gynnydd Ysgolion sy'n Rhan o'r System Adolygu Cynnydd a SIF	21
2.7 Pan Fydd Ysgolion yn Gwneud Cynnydd Annigonol	23
2.8 Cofnodi Deilliannau Gweithgarwch i Fonitro a Gwerthuso Cynnydd	25
Adran 3: Cymorth Brocera a Chomisiynu	26
3.1 Y Broses Fel y Mae'n Berthnasol i Bob Ysgol	26
Adran 4: Cefnogi Datblygiad Ar Draws yr Holl Ysgolion	27
4.1 Cynnig Dysgu Proffesiynol	27
4.2 Gwefan CCD	28
Adran 5: Rheoli Perfformiad Penaethiaid	29

Atodiad 1: Cwestiynau Allweddol i Gefnogi Hunanwerthuso a Addaswyd o Lawlyfr Hunanwerthuso Estyn	32
Atodiad 2: Cwestiynau i Gefnogi Paratoi ar gyfer y Cyfarfod gydag Ysgolion ym mis Medi	36
Atodiad 3: Canllawiau Wrth Gymhwyso Statws CAG a Llunio Barnau am Gynnydd Mewn Ysgolion y Mae Angen Adolygiad Cynnydd neu Gyfarfod SIF	44
Atodiad 4: Amserlen Tasgau Allweddol y Partneriaid Gwella	45
Atodiad 5: Enghraifft o Waith Partneriaid Gwella mewn Ysgol Gyfartalog	48
Atodiad 6: Ceisiadau am Gyllid Pwrpasol i Gynorthwyo Ysgolion	60
Atodiad 7: Adolygu, Nodi a Chasglu Tystiolaeth am Effaith	61

Adran 1: Sut mae Consortiwm Canolbarth y De yn Cefnogi Gwella Ysgolion ar draws y Rhanbarth

1.1 Cyd-destun a Deilliannau Addysgol ar draws Canol De Cymru



Mae rhanbarth Canol De Cymru yn amrywiol iawn yn economaidd ac yn gymdeithasol gydag ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, yn ogystal ag ardaloedd o ffyniant cymharol. Yng Nghonsortiwm Canolbarth y De, mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD¹) 2020 yn dangos:

	Consortiwm Canolbarth y De*	Cymru
Niferoedd y Disgyblion	149624 (31.9%)	469176
Nifer yr athrawon cymwys	8115 (31.4%)	25844
Nifer y staff cymorth	8001 (29.8%)	26844
Yn Gymwys am Brydau Ysgol Am Ddim	21.3%	19.9%
Datganiad Angen Addysgol: Gweithredu gan yr Ysgol	14995 (29.5%)	50749
Datganiad Angen Addysgol: Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	8851 (26.6%)	33289
Datganiad Angen Addysgol: Datganiad	4176 (30.9%)	13513
Ethnigrwydd – Gwyn Prydeinig	82.2%	87.6%
Ethnigrwydd – unrhyw gefndir ethnig arall	17.5%	11.8%

*Mae'r ffigur mewn cromfachau yn dangos ffigur CCD fel cyfran o boblogaeth Cymru

¹ Sylwch, oherwydd pandemig Coronafeirws, na chymhwyswyd yr holl brosesau dilysu at ddata casglu CYBLD 2020 ac felly dylid trin dadansoddiad o ddata nodweddiadol disgyblion a staff gydag elfen o rybudd ar gyfer ffigurau Ionawr 2020.

1.2 Rôl y Consortiwm: Darparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion ar ran Awdurdodau Lleol

Ysgolion sydd â'r prif gyfrifoldeb am y deilliannau addysgol a gyflawnir gan eu plant a'u pobl ifanc.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo safonau uchel a sicrhau bod pob plentyn yn eu hardal yn cael addysg o'r ansawdd gorau.

Mae'r awdurdod lleol yn cyfleu'r disgwyliadau hyn i ysgolion, mae'n darparu cyllideb ar gyfer pob ysgol ac yn dwyn y pennaeth a'r corff llywodraethol i gyfrif am berfformiad yr ysgol. Mae hefyd yn cynorthwyo ysgolion ag agweddau ar eu gwaith fel presenoldeb, ymddygiad, rheolaeth ariannol a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn gweithio mewn partneriaeth â'r pum awdurdod lleol (Pen-y-bont, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg) i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio ac yn cynorthwyo ysgolion yn eu gwaith i godi safonau. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi'r awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran safonau ysgolion.

Mae'r consortiwm wedi ymrwymo i ddatblygu system hunanwella ysgolion. Caiff rhagoriaeth oddi mewn ysgolion, ynghyd â deilliannau ymchwil, ei defnyddio'n effeithiol i helpu pob ysgol i wella.

Ein Gweledigaeth: Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr



Ein hamcan ar y cyd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion yn y rhanbarth, yw parhau i drawsnewid deilliannau addysgol trwy wella arweinyddiaeth ac addysgu a thrwy ddileu effaith tlogi ar ddeilliannau addysgol.

Rydym yn gwneud hyn trwy feithrin gallu ysgolion i hunanwella. Rydym yn datblygu diwylliant sy'n arddel arloesedd ac yn galluogi athrawon ac arweinwyr i weithio gyda'i gilydd i wella arfer mewn ffyrdd sy'n cael eu llywio gan ymchwil ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a chynnydd disgyblion.

Ein gweledigaeth yw galluogi ysgolion eu hunain i arwain y gwaith hwn trwy ddirprwyo'r cyfrifoldeb a'r adnoddau yn gynyddol gyda chefnogaeth system atebolrwydd gadarn. Credwn fod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliant hirdymor cynaliadwy yng nghyflawniad yr holl blant a phobl ifanc yn y rhanbarth.

Rydym yn datblygu'r system hon trwy Her Canol De Cymru. Mae hyn yn golygu:

- hunanwerthuso a chynllunio gwelliant effeithiol gan ysgolion o fewn fframwaith atebolrwydd cadarn a hyderus sydd wrth wraidd system sy'n gwella;
- mae pob ysgol yn rhan o grŵp gwella ysgol sy'n gweithredu'n dda;
- gweithgarwch cydweithredol, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid, lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu harfer, ac ychwanegu gwerth at eu gwaith i wella safonau ac ansawdd yr addysg;

- gwella addysgu a dysgu yw ffocws ein holl waith mewn ysgolion o hyd, a darperir datblygiad proffesiynol trwy Ymarferwyr Arweiniol ac ysgolion Cynghrair Dysgu Proffesiynol lle mae ysgolion yn adnodd ar gyfer y rhanbarth;
- rhaglenni datblygu arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar gyfer darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol newydd a phrofiadol;
- cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol trwy gydol gyrfa athro; ac
- ysgolion yn elwa ar eu cymunedau a'u teuluoedd, ac yn cael cymorth ganddynt, mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

[Model Adolygiad gan Gymheiriaid](#)

1.3 Tasgau Craidd y Consortiwm

Mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant hynod effeithiol mewn ysgolion yn allweddol i ddatblygu system hunanwella. Dyma dasgau craidd y consortiwm:

1. Gweithio gyda'r holl ysgolion, penaethiaid a chyrrff llywodraethol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr, gan weithio'n ddwysach gyda'r rheiny lle mae'r angen i wella ar ei fwyaf.
2. Cynorthwyo pob ysgol yn ei gwaith i hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rhoi'r cymorth cywir ar waith i wella dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.
3. Cyflenwi data a gwybodaeth graff a phriodol i ysgolion i gefnogi hunanwerthuso a gosod targedau.
4. Datblygu a threfnu cymorth o ansawdd uchel, gan ddefnyddio adolygiad gan gymheiriaid yn gynyddol, yn ogystal ag adnoddau fel y grwpiau gwella ysgolion, Ymarferwyr Arweiniol a'r Cynghrair Dysgu Proffesiynol a llywodraethwyr ymgynghorol.
5. Cefnogi gallu'r awdurdodau lleol am ymyrraeth statudol lle mae angen.
6. Cynorthwyo awdurdodau lleol a'u hysgolion i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar wella ysgolion.

Mae datblygu system hunanwella ysgolion yn digwydd pan fydd pob partner yn arddel yr atebolrwydd sydd ei angen i sicrhau gwelliant cynaliadwy ar draws y system.

1.4 Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella

Mae'r cynllun busnes ar gyfer 2020-2021 yn cynnwys pum blaenoriaeth drosgwaol. Sefydlwyd cynlluniau gweithredu mewn meysydd allweddol yn gysylltiedig â phob un o'r blaenoriaethau, a'r rhain fydd y prif ffyrdd i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae pum blaenoriaeth drosgwaol a ffocysau'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig wedi'u hamlinellu isod:

Blaenoriaeth Gwella Un

Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel:

1.1	Mae'r cynnydd dysgu proffesiynol rhanbarthol ar gael i bob ysgol i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.
1.2	Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i reoli newid a datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu
1.3	Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'r Safonau ar gyfer Cynorthwyo Addysgu er mwyn gwella ansawdd addysgu
1.4	Mae Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu (TALP) diwygiedig a phroses sefydlu ANG yn hwyluso llwybrau dysgu priodol i ymarferwyr
1.5	Mae gwaith partneriaeth â darparwyr AGA (Addysg Gychwynnol Athrawon) ac ysgolion yn gwella ansawdd addysg gychwynnol athrawon
1.6	Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i ymgysylltu â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol
1.7	Cefnogi ysgolion wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru
1.8	Datblygu a gweithredu strategaeth e-ddysgu broffesiynol ranbarthol
1.9	Darparu dysgu proffesiynol rhanbarthol mewn addysgeg, cwricwlwm, asesu a chymwysterau
1.10	Cefnogi gweithrediad strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer datblygu Cymraeg mewn ysgolion
1.11	Cefnogi paratodau ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA)

Blaenoriaeth Gwella Dau

Datblygu arweinyddiaeth hynod effeithiol i hwyluso cydweithio i godi safonau:

2.1	Cyfoethogi arweinyddiaeth bresennol ac yn y dyfodol trwy lwybr cynhwysfawr
2.2	Datblygu modelau cydweithredol effeithiol er mwyn cynyddu capasiti arweinyddiaeth
2.3	Cryfhau llywodraethu mewn ysgolion i ddarparu arweinyddiaeth, her a chefnogaeth effeithiol.
2.4	Gwella'r defnydd o hyfforddwyr a mentoriaid i ddatblygu arweinwyr ysgolion ymhellach
2.5	Datblygu a chryfhau arweinyddiaeth effeithiol trwy ymgysylltiad cymheiriaid.
2.6	Defnyddio Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru i adnabod a dathlu arfer hynod effeithiol.

Blaenoriaeth Gwella Tri

Datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau lles, tegwch a rhagoriaeth:

3.1	Gwella deilliannau i ddysgwyr bregus trwy gefnogaeth strategol effeithiol.
3.2	Sicrhau cysondeb o ran dull Consortiwm Canolbarth y De ac awdurdodau lleol wrth gefnogi darpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus
3.3	Paratoi ysgolion ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Tribiwnlys Addysg trwy waith partneriaeth effeithiol.
3.4	Mae'r strategaeth Addysgu a Dysgu newydd yn cwmpasu'r strategaeth les ac yn adlewyrchu dull yr awdurdodau lleol gan gynnwys cysylltiadau gydag arweinwyr presenoldeb a gwaharddiad.
3.5	Amlygu arfer da wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal (CLA) trwy ymholiad gwerthfawrogl.

Blaenoriaeth Gwella Pedwar

Parhau i ddatblygu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn sy'n ategu system hunanwella:

4.1	Galluogi a chefnogi ysgolion i gael mynediad at gefnogaeth briodol i ymateb i'r mesurau atebolrwydd newidiol
4.2	Adnodd Arfarnu a Gwella Cenedlaethol (NEIR) yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion fel offeryn effeithiol i gefnogi gwelliant
4.3	Parhau i ddatblygu, sefydlu a gwreiddio newidiadau i Her Canol De Cymru.
4.4	Cryfhau effeithiolrwydd y model/strwythur llywodraethu cenedlaethol presennol
4.5	Consortia fel Sefydliad sy'n Dysgu (CSD) – Datblygu dull ymholi o ran dysgu.

Blaenoriaeth Gwella Pump

Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd CCD:

5.1	Adolygu strwythur llywodraethu Consortiwm Canolbarth y De yn effeithiol a goblygiadau rheoli newid cysylltiedig
5.2	Cysylltu'r prosesau cynllunio busnes a hunanarfarnu, gan ganolbwyntio ar werth am arian mewn perthynas â chynnydd ac effaith
5.3	Codi ymwybyddiaeth am negeseuon allweddol CCD a sianeli cyfathrebu.
5.4	Atebolrwydd ehangach CCD yn cael ei wella trwy brotocol ymholi gwerthfawrogl, sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer goruchwyllo effeithiol a sicrhau ansawdd yr holl staff
5.5	Sylweddoli gwerth a pherthnasedd ymchwil ac arfarniad ar agweddau allweddol ar waith CCD.

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, mae cynllun gweithredol manwl sy'n amlinellu sut a phryd y bydd yr agweddau ar bob blaenoriaeth yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf llwyddiant meintiol ac ansoddol y caiff cynnydd ei fesur yn unol â nhw.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

[Cynllun Busnes 2020/21](#)

1.5 Sut Rydym Ni'n Gweithio

Rôl y Consortiwm yw herio a chefnogi ysgolion yn eu gwaith i wella deilliannau addysgol.

Mae'r awdurdodau lleol (trwy Gyd-bwyllgor a fynychir gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ym mhob awdurdod) yn cytuno ar y cynllun busnes, gan gynnwys targedau a chyllideb ar gyfer y rhanbarth, ac yn dwyn y Consortiwm i gyfrif am effaith ei waith.

Ariennir y Consortiwm gan yr awdurdodau lleol.

Mae 386 o ysgolion yn rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De. Mae'r rhain yn allweddol i ddyfodol llwyddiant addysgol ac economaidd Cymru.

Mae pa mor dda y mae plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cyflawni yn y rhanbarth hwn yn dylanwadu'n sylweddol ar sut caiff y wlad a'i system addysg eu hamgyffred o fewn ein ffiniau, a thu hwnt.

Nod cynllun busnes y Consortiwm yw:

- datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel;
- datblygu arweinwyr ysbrydoledig a'u hwyluso wrth iddynt gydweithio i godi safonau;
- datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth a lles; a
- datblygu prosesau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system hunanwella.

I wneud hyn, mae'r Consortiwm:

- yn darparu partner gwella (PG) i bob ysgol yn y rhanbarth;
- yn darparu dadansoddiad amserol o ddata i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgolion;
- yn cefnogi ac yn ariannu partneriaethau gwella o ysgol i ysgol. Mae'r rhain yn galluogi ysgolion i rannu arfer da a dysgu oddi wrth ei gilydd i wella addysgu ac arfer arwain, a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei flaenoriaethau yn y rhanbarth;
- yn dyrannu cyllid grant (e.e. y grant datblygu disgyblion - PDG) i ysgolion yn y rhanbarth ynghyd ag arweiniad a chyngor ar sut gellir defnyddio cyllid grant i ysgogi gwelliant.

1.6 Rolau a Chyfrifoldebau yn y Consortiwm

Swyddogaethau Allweddol

Mae chwe swyddogaeth sy'n allweddol i waith gwasanaeth gwella ysgolion y Consortiwm mewn partneriaeth ag ysgolion:

1. Gallu cynyddol ar gyfer swyddogaeth data a gwybodaeth ragorol.
2. Fframwaith her craffach wedi'i arwain gan lai o bartneriaid gwella yn canolbwyntio ar hunanwerthuso a chynllunio gwelliant effeithiol gan ysgolion.
3. Rôl sylweddol mewn brocera a chomisiynu cymorth.
4. Datblygu cronfa ddata wybodaeth, gan gynnwys astudiaethau achos arfer effeithiol sydd ar gael i'r holl ysgolion.
5. Dull strategol o ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion gan ysgolion, a thrwy'r timau canolog, yn ymwneud â'r canlynol: tegwch a lles; dysgu digidol; y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; gwyddoniaeth a thechnoleg; llythrennedd a rhifedd; datblygu arweinyddiaeth; addysgeg; Cymraeg a Chymraeg ail iaith a dwyieithrwydd; y Cyfnod Sylfaen; a datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso.
6. Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gynorthwyo pob awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldeb statudol ar gyfer gwella ysgolion.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Model Dyrannu Partneriaid Gwella

Rôl Newidiol Partneriaid Gwella

[Timau CCD a'u chyfrifoldebau](#)

1.7 Atebolrwydd a Chyllid

Mae'r Consortiwm yn atebol i'r pum awdurdod lleol yn y lle cyntaf, a thrwy'r awdurdodau lleol, i Lywodraeth Cymru. Mae'r pum awdurdod lleol yn cytuno ar y deilliannau bwriadedig o'r cynllun busnes a'r adnoddau i ariannu'r cynllun yn flynyddol. Mae'r cynllun yn cynnwys atodiad ar gyfer pob awdurdod lleol sy'n amlinellu blaenoriaethau penodol ac unrhyw ofynion ychwanegol a goblygiadau o ran adnoddau.

Caiff Consortiwm Canolbarth y De ei lywodraethu gan Gyd-bwyllgor a ategir gan gytundeb cyfreithiol rhwng y pum awdurdod lleol. Caiff y sefydliad ei gynghori gan Fwrdd Ymgynghorol, sy'n cynnwys penaethiaid ac arbenigwyr eraill. Mae grwpiau llywio sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Addysg, llywodraethwyr a chynrychiolwyr penaethiaid yn cyfrannu at lunio polisiau a gwneud penderfyniadau. Yn ychwanegol, mae grŵp o benaethiaid cynrychioliadol yn arwain datblygu strategaethau allweddol y consortiwm gan weithio ochr yn ochr ag aelodau o'r uwch dîm rheoli.

Mae'r consortiwm yn adrodd yn rheolaidd i'r pum awdurdod lleol, eu Cabinetau a'u Pwyllgorau Craffu, yn ogystal ag i Ysgrifennydd y Cabinet trwy gyfarfodydd her ac adolygu tymhorol gyda Llywodraeth Cymru.

Ariennir y consortiwm ar lefel a argymhellir gan Lywodraeth Cymru trwy'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion, ac mae'n cynnwys cyfraniad gan bob un o'r awdurdodau lleol sy'n gymesur â'u maint.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-2021, cyfanswm y cyllid a dderbyniodd y sefydliad gan y pum awdurdod lleol yw £3.6 miliwn. Yn ychwanegol, caiff tua £76.7 miliwn (ac eithrio cyllid cyfatebol ALI) ei weinyddu gan y sefydliad ar ran ysgolion a'r awdurdodau lleol.

Adran 2: Prosesau Allweddol ar gyfer Gwella Ysgolion

2.1 Gwybodaeth am Ysgolion

Dros 7 mlynedd, mae'r system gategoreiddio genedlaethol wedi galluogi CCD i:

- sicrhau bod y cymorth, yr her a'r ymyrraeth gywir ac amserol wedi sicrhau gwelliant mewn deilliannau i bob dysgwr;
- meithrin gallu a gwydnwch ysgol i wella'i hun a hwyluso cymorth o ysgol i ysgol;
- bod yn broffil dibynadwy, deallus a gwrthrychol o ysgolion ledled Cymru;
- bod yn broses gydweithredol gan ddechrau â hunanwerthusiad yr ysgol;
- bod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer gwella safonau ac offeryn diagnostig i wella arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu; a
- chael trefniadau atebolrwydd clir ar lefelau ysgol, awdurdod lleol a chonsortium.

Nid yw diben sylfaenol categoreiddio yn ymwneud â labelu ysgolion, ond â nodi ysgolion sydd fwyaf angen cymorth. Dylai'r broses gategoreiddio arwain at:

- nodi'r agweddau hynny sydd angen eu gwella fwyaf yn gywir a chilir;
- darparu cymorth mewn cyfrannedd gwrthdro â gallu ysgolion i wella ar eu pen eu hunain;
- helpu meithrin gallu ysgolion i hunanwella;
- sicrhau gwelliant ar gyflymdra; a
- gweithredu i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg orau posibl, ni waeth ble maent yn mynd i'r ysgol.

Wrth adnabod y gefnogaeth sy'n ofynnol, rhaid i arweinwyr, llywodraethwyr a phartner gwella'r ysgol ystyried:

- gweledigaeth yr ysgol a'i strategaeth ar gyfer gwella cyflawniad disgyblion;
- y gallu i gynllunio a gweithredu newid yn llwyddiannus, ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel ar ddeilliannau;
- trylwyredd a chywirdeb proses hunanwerthuso'r ysgol a defnydd o ddata i nodi cryfderau a gosod blaenoriaethau gwella;
- priodoldeb targedau a disgwyliadau'r ysgol ar gyfer cyflawniad disgyblion yn y dyfodol;
- hanes yr ysgol o ran gwella deilliannau ar gyfer disgyblion, gweithredu blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, a bodloni'r argymhellion ar gyfer arolygu ac o'r Consortium;

- pa mor effeithiol y mae gwaith gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn gwella'r gallu i ysgogi gwelliant;
- y graddau y caiff cymorth o ysgol i ysgol ei gynllunio, ei weithredu a'i werthuso fel rhan o strategaeth wella'r ysgol, gan gynnwys gweithgarwch ar y cyd trwy Grantiau Gwella Ysgolion, partneriaethau braenaru, hybiau gwella ac ymchwiliad gan gymheiriaid;
- y graddau y mae'r ysgol wedi dangos y gallu i gefnogi ysgolion eraill;
- ansawdd llywodraethu a pha mor effeithiol y mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio perfformiad yr ysgol;
- eglurder rolau a chyfrifoldebau a'r graddau y caiff safonau proffesiynol eu bodloni;
- ansawdd yr addysgu;
- ansawdd a chywirdeb asesiadau athrawon;
- effeithiolrwydd y ffordd y caiff cynnydd disgyblion ei olrhain, ac y darperir cymorth.

Yn ychwanegol, bydd angen ystyried risgiau eraill a all sbarduno cymorth ychwanegol.

Y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'r cynnydd a wnânt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg y maent wedi'i chael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Felly, y sbardun allweddol ar gyfer unrhyw farn am allu'r ysgol i wella a lefel y cymorth sydd ei hangen arni fydd y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yr ysgol. Lle mae arweinyddiaeth yn effeithiol, dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn ysgogi ysgolion effeithiol a pherfformiad gwell gan yr holl ddysgwyr. Lle ceir tanberfformio, dylai fod cynlluniau clir gan arweinwyr yr ysgol i ysgogi gwelliant. Wrth nodi unrhyw gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu ansawdd yr arweinyddiaeth, ffactor pennu allweddol fydd ansawdd, amllder ac effaith hunanwerthuso yr ysgol, gan gynnwys defnyddio data ar berfformiad, a'i phrosesau cynllunio gwelliant.

Mae ansawdd yr addysgu yn elfen allweddol yng ngallu ysgol i wella safonau ac ansawdd yr addysg. Dylai fod gan ysgolion bolisiâu a gweithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon, ac ar gyfer rheoli perfformiad er mwyn datblygu arfer, sicrhau atebolrwydd a mynd i'r afael â thanberfformio. Mae prosesau clir ar gyfer gwerthuso dysgu ac addysgu yn rhan hanfodol o hunanwerthuso effeithiol. Pan fydd y prosesau hyn yn ddiffygiol a lle nad yw hunanwerthuso, o ganlyniad, yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon da, bydd lefelau ychwanegol o gymorth yn angenrheidiol.

Dylid rhoi sylw i berfformiad yr holl grwpiau o ddysgwyr wrth ystyried gallu'r ysgol i wella. Yn benodol, rhaid dadansoddi perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i bennu p'un a yw ysgol yn gwneud cynnydd o ran torri'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Model Dyrannu Partneriaid Gwella

Rôl Newidiol Partneriaid Gwella

2.2 Swyddogaethau Cefnogi

Er bod categorieiddio wedi'i atal dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd mae'n hanfodol bod ysgolion yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella. Yn 2020-2021 byddwn yn defnyddio model cymorth hybrid a fydd yn parhau i ganolbwyntio ar wella ysgolion cyfredol a gafodd gefnogaeth sylweddol yn 2019-2020. Ni fyddwn yn tynnu cefnogaeth yn ôl oni bai bod tystiolaeth glir bod yr ysgol wedi gwneud gwelliannau cynaliadwy sylweddol.

Bydd Partneriaid Gwella yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu cynlluniau gwella ysgolion effeithiol ac i sicrhau bod gwerthusiad priodol o effaith strategaethau gwella ysgolion. Bydd hyn yn gweithio ar y cyd â'r systemau ysgolion ac ni fydd yn cynhyrchu gwaith ychwanegol i arweinwyr ysgolion. Bydd Partneriaid Gwella yn parhau i gefnogi'r corff llywodraethu gyda rheoli perfformiad penaeithiaid a byddant yn cefnogi'r corff llywodraethu i ddeall eu rôl wrth wella ysgolion.

Yn ogystal, bydd Partneriaid Gwella yn parhau i:

- gytuno ar flaenoriaethau gwella ysgolion a chyd-lunio cynllun ar gyfer cefnogaeth
- dyrannu gwariant PYDd a monitro effaith yn rheolaidd
- adolygu'r cylch monitro
- cydweithio â chydweithwyr Awdurdod Lleol (ALI) a CCD

Yn seiliedig ar anghenion yr ysgol, bydd y Partner Gwella yn nodi'r anghenion cymorth, a'r gefnogaeth frocer sydd ei hangen. Bydd cefnogaeth yn canolbwyntio'n dynn ar y camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Ysgol (CGY) a bydd broceriaeth yn cael ei chydlynu gan yr Uwch Bartner Gwella.

Unwaith y cytunir ar y rhaglen gymorth, mae'r Partner Gwella yn gyfrifol am sicrhau ansawdd effaith y gefnogaeth hon gyda'r Pennaeth a'r llywodraethwyr fel sy'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau rheolaidd gyda'r tîm cymorth. Disgwylir hefyd y bydd y Partner Gwella yn rhannu gwybodaeth gyda'r ALI ac yn mynychu unrhyw gyfarfodydd ALI sy'n canolbwyntio ar ysgolion yn ôl yr angen.

Cysylltiadau gydag Awdurdodau Lleol

Bydd Partneriaid Gwella yn parhau i ddatblygu a meithrin partneriaethau gweithio cydweithredol gyda chydweithwyr yn yr ALI. Mae Partneriaid Gwella yn ymwybodol o'r systemau a'r broses unigol ym mhob ALI a byddant yn gweithio yn unol â hynny. Bydd cydweithredu ar y cyd yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth i alluogi gwelliant effeithiol mewn ysgolion.

Bydd Partneriaid Gwella yn parhau i ddefnyddio'r strategaethau llwyddiannus sydd ar waith a byddant yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr ALI i addasu a gwella lle mae anghenion yn dod i'r amlwg. Bydd yr uwch bartneriaid yn parhau i fod yn gyswllt canolog â phob ALI a byddant yn sicrhau llif gwybodaeth ddwy ffordd effeithiol.

Mae'r Fframwaith a nodir isod yn canolbwyntio ar 3 maes:

1. **Lles** - rydym yn cydnabod y pwysau a roddwyd ar arweinwyr a staff ar draws yr ysgol, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi arweinwyr i gynnal eu lles eu hunain a lles eu staff a'u dysgwyr.
2. **Dysgu ac Addysgu** - efallai y bydd angen cefnogaeth ar athrawon i ddatblygu dysgu mewn amgylchedd cyfunol, hyd yn oed os yw ysgolion yn agored i bob disgybl, bydd cyfyngiadau o hyd. Bu amrywiad sylweddol yn y ddarpariaeth ers gweithredu dysgu o bell.

3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth - bydd angen i arweinwyr allu sefydlu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer monitro effaith strategaethau lles a dysgu ar ddysgwyr a staff.

Mae CCD yn cydnabod bod arweinwyr ysgolion wedi canolbwyntio'n helaeth ar faterion gweithredol a logistaidd mewn hinsawdd adweithiol fel trefnidaeth ysgolion, iechyd a diogelwch, lles staff a disgyblion, diogelu, arlwy, trafniadaeth a chynllunio adferiad cychwynnol. Wrth i ysgolion symud tuag at ddull mwy strategol o ddysgu, dylai **Partneriaid Gwella gofio gallu ysgolion unigol i fynd i'r afael â hyn a'r cyflymder y mae'n realistig i ysgolion wneud cynnydd tuag at hinsawdd fwy cytbwys o sefydlogi a gwella.**

Mae'n hanfodol bod y Partner Gwella yn ffurfio perthynas broffesiynol gref gyda'r pennaeth. Un o rolau allweddol y Partner Gwella yw brocera cefnogaeth a fydd yn helpu i adeiladu gallu a grymuso'r ysgol i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Gwella Ysgol (CGY).

Wrth i Partneriaid Gwella weithio gydag ysgolion bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol y mae'r ysgol ynddi fel rhan o'i hadferiad o effeithiau'r pandemig.

Mae'r fframwaith isod yn rhoi amlinelliad o ysgogiadau ar gyfer deialog gydag ysgolion ynglŷn â'u prosesau, gyda ffocws ar effaith y cyfnod cloi ar ddysgu a lles disgyblion. Bydd y ddeialog yn canolbwyntio ar ac yn strwythuro pum cwestiwn sylfaenol i'w hymchwilio:

- Beth yw gwerthusiad yr ysgol o'r agwedd hon?
- Sut maen nhw'n gwybod?
- Beth maen nhw'n ei wneud / cynllunio i'w wneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion?
- Sut maen nhw'n gwerthuso llwyddiant eu cynlluniau?
- Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw?

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Canllawiau ar Hunanwerthuso a Chynllunio Gwelliant

Canllawiau Diwygiedig ar Gynllunio Gwella Ysgolion i Adlewyrchu Gofynion Statudol

Model Dyrannu Partneriaid Gwella

Rôl Newidiol Partneriaid Gwella

2.3 Cymryd Rhan mewn Sgyrsiau ag Ysgolion

Capasiti Addasol

Mae model gallu addasol CCD wedi'i gynllunio i gefnogi sgyrsiau gwella ysgolion. Nid yw wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio fel mesur, nac fel asesiad.

Capasiti addasol yw gallu ysgol i addasu i newidiadau sydd wedi'u cynllunio ac heb eu cynllunio. Mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd meysydd arbenigedd ym mhob ysgol lle gweithredir newidiadau ailadroddol i bolisi ac arfer yn hyderus oherwydd y gallu sydd ar gael. Mae'n debygol y bydd yna hefyd feysydd sydd wedi'u datblygu'n llai lle gallai fod gan yr ysgol lai o allu i gyflawni'r newidiadau hynny. Nid yw'n creu fframwaith na haen ychwanegol gan ei fod yn defnyddio modelau sy'n bodoli eisoes yn y system.

Nid yw'n gweld bod gan yr ysgol alluedd ai peidio, mae'n ystyried maes gwella ac yn gofyn:

Asedau gwybodaeth:

- A oes gan yr ysgol y sylfaen wybodaeth i werthuso ei pherfformiad cyfredol a sicrhau unrhyw newidiadau sydd eu hangen?
- Pa ddysgu proffesiynol sydd ar gael i gefnogi datblygiad gwybodaeth yn y maes hwn?
- Pa ddarllen ac ymchwil y gellir eu cyrchu i gefnogi datblygiad gwybodaeth yn y maes hwn ymhellach?

Capasiti arweinyddiaeth:

- A oes gan yr ysgol arweinydd ar gyfer y maes sy'n cael ei ddatblygu sydd â'r sgiliau i arwain gwelliant?
- A oes systemau a phrosesau cadarn i ganiatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth?
- *Gall y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi hyn*

Capasiti addysgu:


- A yw'r holl athrawon yn gwybod beth yw eu rôl yn y maes sy'n cael ei ddatblygu?
- A oes cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ymgysylltu â'r maes sy'n cael ei ddatblygu?
- *Gall y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi hyn*

Diwylliant a hinsawdd:

- A yw diwylliant a hinsawdd yr ysgol yn caniatáu ac yn cefnogi datblygiad yn y maes hwn?
- *Mae Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn darparu dimensiynau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a hinsawdd*

Systemau a phrosesau:

- A oes systemau a phrosesau yn yr ysgol i ganiatáu a chefnogi datblygiad yn y maes hwn?
- *Mae Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn darparu dimensiynau sy'n canolbwyntio ar systemau a phrosesau*



2.4 Gweithio Gydag Ysgolion lle roedd y Categori Cymorth yn 2019-20 yn Goch neu'n Ambr ac mae'r Strategaeth Ymyrraeth ar gyfer Ysgolion sy'n Peri Pryder yn Berthnasol

Bydd yn hanfodol bod safbwynt diamwys a chytûn am y blaenoriaethau allweddol o'r cychwyn a sicrhau ffocws cryf ar wella cyflawniad yng nghynllun gwella'r ysgol. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am y cymorth ychwanegol a ddarperir i'r ysgol, gan bwy, y graddfeydd amser, ei effaith fwriadedig a'r gofynion o ran adnoddau. Mae strategaeth ymyrraeth y Consortiwm yn cynnwys nifer o adnoddau y dylai partneriaid gwella eu hystyried wrth bennu'r strategaethau ar gyfer gwella i'w rhoi ar waith mewn ysgolion. Gellir gweld dolen i'r strategaeth ymyrraeth ar ddiwedd yr adran hon.

Ar gyfer ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig, bydd y partner gwella yn gweithio'n agos â'r uwch bartneriaid gwella ac uwch swyddogion yr awdurdod lleol i baratoi datganiad gweithredu yn amlinellu sut bydd yr awdurdod lleol yn cynorthwyo'r ysgol.

Yn y cyfarfod adolygu, her a chymorth, bydd y partner gwella yn cytuno â'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr ar y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd am gynnydd yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd hyn yn cynnwys:

- disgwyliadau'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr ar gyfer darparu tystiolaeth o gynnydd yn y cyfarfodydd a gynlluniwyd i adolygu cynnydd
- y trefniadau ar gyfer cynnal y cyfarfodydd hyn ar y cyd â'r awdurdod lleol
- sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i gofnodi gan y partner gwella a phersonél eraill sy'n cynorthwyo'r ysgol.

Defnyddio pwerau ymyrraeth statudol yr awdurdod lleol

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn cryfhau pŵer yr awdurdod lleol i ymyrryd mewn ysgolion. Mae'r ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig yn amlinellu'r sail ar gyfer ymyrraeth a natur y pwerau sydd ar gael i'r awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb am bennu pryd y dylid defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol pan fydd ysgol yn dechrau peri pryder.

Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu p'un a ddylid hysbysu ysgol yn ysgrifenedig am ei bryderon neu p'un a oes angen cyflwyno hysbysiad rhybuddio ffurfiol yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae pryderon am safonau a gallu ysgol i wella ar ôl ei chategoreiddio
- mae adroddiadau monitro yn codi pryderon am gynnydd ysgol
- mae gwaith arall a wnaed mewn ysgol, neu wybodaeth am ysgol, yn amlygu pryderon
- bodlonwyd un neu fwy o'r seiliau ar gyfer ymyrraeth yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).

Rôl Consortiwm Canolbarth y De yw rhoi tystiolaeth berthnasol i'r awdurdod lleol i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio tystiolaeth oddi mewn i'r awdurdod ei hun hefyd, yn ogystal â mathau eraill o dystiolaeth, er enghraifft, arolygiad.

Pan fydd ysgol yn peri pryder, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu trafod ei bryderon gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr. Wedyn, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu am y canlynol:

- natur y pryderon, y camau y dylai'r corff llywodraethol eu cymryd, a'r raddfa amser
- y camau y dylid eu cymryd i gefnogi'r ysgol a monitro cynnydd
- camau'r awdurdod lleol, a all gynnwys cyflwyno hysbysiad rhybuddio, os bydd cynnydd annigonol o hyd ar ddiwedd y cyfnod cytûn.

Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod y pryderon mor sylweddol bod angen hysbysiad rhybuddio, bydd yr awdurdod yn trafod y pryderon gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn amlinellu'r canlynol:

- y seiliau ar gyfer ymyrraeth a'r amgylchiadau sy'n peri pryder
- y camau y mae angen i'r corff llywodraethol eu cymryd
- canllawiau ar sut gall y corff llywodraethol gydymffurfio
- y cyfnod y mae'n rhaid gweithredu ynddo
- y camau pellach y dylai'r awdurdod lleol eu cymryd os na fydd y corff llywodraethol yn cymryd y camau angenrheidiol neu os bydd cynnydd annigonol.

Pan fydd angen cymorth ambr neu goch ar ysgol, bydd y partner gwella yn cwblhau'r cynllun cymorth a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth y bydd yr ysgol yn ei gael.

Ym mhob achos, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i godi ei bryderon yn ysgrifenedig neu gyflwyno hysbysiad rhybuddio yn gynnar pan fydd pryderon am ysgol yn ymwneud â safonau, ansawdd y dysgu a'i harweinyddiaeth a rheolaeth, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Pwerau Ymyrraeth Statudol

Canllawiau Llywodraeth Cymru: Ysgolion sy'n Peri Pryder

Strategaeth Ymyrraeth

[Model Ymchwiliad gan Gymheiriaid](#)

Templed Gwag Datganiad Gweithredu'r Cyngor

2.5 Monitro ac Adrodd ar Gynnydd Ysgolion – Dibenion Allweddol

Dyma ddibenion allweddol monitro cynnydd ysgolion:

- Cynnal momentwm a chynorthwyo'r ysgol fel bod gwelliant yn digwydd yn gyflym.
- Helpu'r ysgol i asesu'r graddau y mae gwaith gwella ar y trywydd iawn.
- Cryfhau gallu'r ysgol i nodi a defnyddio tystiolaeth briodol i werthuso'r effaith ar safonau a chynnydd disgyblion sy'n deillio o waith a wnaed gan yr ysgol ei hun a chan y rheiny sy'n cynorthwyo'r ysgol.
- Gwneud diwygiadau i'r cynllun gwella, gan gynnwys y cymorth a ddarperir, cyn gynted ag y mae angen.
- Dathlu llwyddiant yr ysgol wrth wneud cynnydd a bodloni'r gofyniad ar gyfer atebolrwydd yn effeithiol. Wrth fonitro cynnydd, mae cysylltiad uniongyrchol ag ystafelloedd dosbarth yn hanfodol oherwydd:
 - » mae'n darparu tystiolaeth bwysig am gynnydd ysgol ac yn helpu â phenderfyniadau am y camau nesaf; ac
 - » mae adborth a deialog adeiladol gydag athrawon yn gyfraniad pwysig at ddatblygiad proffesiynol.
- Sicrhau bod yr ysgol yn ymgysylltu â'r diwylliant diwygio, fel yr amlinellir yn y Model Cenedlaethol a bod y pedwar diben yn cael eu hymgorffori yng ngweledigaeth a nodau'r ysgol.
- Cefnogi gallu'r ysgol i weithredu fel sefydliad dysgu.
- Cryfhau hunanwerthusiad yr ysgol o'u parodrwydd o ran y cwricwlwm newydd.
- Sicrhau bod diwygio'r cwricwlwm yn amlwg yng nghynllun datblygu'r ysgol a bod dysgu proffesiynol priodol yn cael ei ddefnyddio.
- Sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel wrth wraidd diwygio'r cwricwlwm bob amser, a chytuno ar sut beth yw hyn i'r dysgwyr ym mhob ysgol er mwyn datblygu'r parhad hwnnw mewn dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yn eich cyd-destun daearyddol.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dylid arsylwi'r dysgu a'r addysgu ar y cyd ag arweinwyr yr ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrion a thrafod pa rai ohonyn nhw eu hunain sy'n ddatblygiadol.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Protocol ar gyfer Ymweld ag Ysgolion

Ffurflen Arsylwi Gwers

2.6 Monitro ac Adrodd ar Gynnydd Ysgolion sy'n Rhan o'r System Adolygu Cynnydd a Fforwm Gwella Ysgol

Mae'r gofynion sylfaenol fel a ganlyn:

1. Bydd y partner gwella yn cynnal ymweliadau monitro o leiaf ddwywaith bob hanner tymor i fonitro a gwerthuso cynnydd, a bydd yn cofnodi deilliannau gan ddefnyddio'r adroddiad gwerthuso ar gyfer gwella.
2. Ym mhob achos, bydd y partner gwella yn trafod y canlynol gyda'r ysgol:
 - » y graddau y mae pob un o'r disgyblion ar y trywydd iawn i gyflawni eu targedau, nid yn unig y rheiny ar ddiwedd y sector neu'r cyfnod allweddol perthnasol, ond y rheiny ar ddiwedd pob blwyddyn hefyd
 - » y camau mae'r ysgol yn eu cymryd i ymyrryd i gynorthwyo disgyblion y mae eu cynnydd yn peri pryder.
3. Bydd yn paratoi'r adroddiad cynnydd bob hanner tymor cyn y cyfarfod adolygu cynnydd bob hanner tymor, ac yn cwblhau'r adroddiad ar ôl y cyfarfod.
4. Bydd cyfarfod bob hanner tymor rhwng y partner gwella, y prif bartner gwella a chynrychiolydd y cyfarwyddwr addysg gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr. Bydd yr olaf o'r rhain yn cyflwyno eu barn am gynnydd yr ysgol gyda thystiolaeth, a bydd y farn yn cael ei dilysu neu'i herio gan y prif bartner her, a'r camau'n cael eu cytuno.
5. Bydd y cyfarfod yn cofnodi pwyntiau gweithredu allweddol. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn adran berthnasol yr adroddiad gwerthuso ar gyfer gwella, ac yn cael eu rhannu â'r awdurdod lleol.
6. Bydd partner gwella yn gweithio gyda'r prif bartner gwella i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynorthwyo'r ysgol yn cael gwybod am gynnydd yr ysgol, a'r camau nesaf.

Y broses uchod yw'r lleiafswm sydd ei angen, ond bydd angen i'r broses fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer amgylchiadau penodol mewn ysgolion unigol. Gall y canlynol fod yn angenrheidiol hefyd:

- Monitro mwy rheolaidd yn ystod pob hanner tymor gan y partner gwella.
- Dylai gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynorthwyo'r ysgol fynychu un o'r cyfarfodydd adolygu cynnydd, neu'r ddau gyfarfod.
- Cyfarfod adolygu cynnydd yn gynharach na'r hyn a bennwyd gan y cyfnodau hanner tymor lle mae pryderon am gyfradd y cynnydd a/neu allu'r ysgol i wella.
- Dylai'r cyfarwyddwr addysg neu'i gynrychiolydd/chynrychiolydd fynychu'r cyfarfod.
- Argymhelliad y dylai'r awdurdod lleol ystyried defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol lle mae pryderon yn cyfiawnhau hyn.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Strategaeth Ymyrraeth

2.7 Pan Fydd Ysgolion yn Gwneud Cynnydd Annigonol

Bydd graddfeydd amser targed ar gyfer sicrhau gwelliant mewn ysgolion lle mae lefel y cymorth yn ambr neu'n goch yn cael eu nodi ar y dechrau. Pan nad yw ysgol yn gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r meysydd cytûn i'w gwella yn ei chynllun gwella'r ysgol, bydd y pryderon hyn yn cael eu trafod gyda'r pennaeth a fydd yn hysbysu cadeirydd y llywodraethwyr cyn y cyfarfod adolygu cynnydd.

Bydd y partner gwella yn ymgynghori â'r prif bartner gwella sydd ynghlwm â'r awdurdod lleol y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddo, a phennaeth gwasanaeth yr awdurdod lleol am y camau priodol nesaf. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- adolygiad i sefydlu'n gliriach y rhesymau dros y diffyg cynnydd
- ystyried p'un a ddylid newid categori gwelliant yr ysgol a chynyddu lefel y cymorth
- argymhelliad gan wasanaeth gwella ysgolion y Consortiwm i'r awdurdod lleol ei fod yn ystyried defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol.

Dyma dri cham y broses:

Cam 1: Diagnosis

- Asesu difrifoldeb a graddfa'r heriau sy'n wynebu ysgolion unigol, a chanfod anghenion.

Cam 2: Ymyrraeth

- Cynllunio a gweithredu ymyrraeth, gan ddarparu'r cymorth sydd ei angen i ddiwallu anghenion, gan fonitro ac adrodd am gynnydd.

Cam 3: Adolygiad

- Barnu'r cynnydd y mae ysgol wedi'i wneud, a'i gallu i gynnal gwelliant

Mae effeithiolrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel yn allweddol i allu ysgol i wella. Pan fydd pryderon am arweinyddiaeth gyffredinol yr ysgol, bydd y rhain yn cael eu trafod gyda'r pennaeth fel rhan o'r strategaeth ar gyfer sicrhau gwelliant. Pan fydd pryderon penodol am arweinyddiaeth y pennaeth, gan ei bod yn wahanol i arweinyddiaeth gyffredinol yr ysgol, bydd y rhain yn cael eu trafod gyda'r pennaeth a chynrychiolydd y cyfarwyddwr addysg. Bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu am y rhain mewn llythyr at y pennaeth. Bydd y llythyr yn amlinellu'r meysydd pryder, a bydd copi'n cael ei anfon at gadeirydd y llywodraethwyr. Yn yr amgylchiadau hyn, gall yr awdurdod lleol argymhell i'r corff llywodraethol y dylai weithredu gweithdrefnau galluogrwydd a rheoli perfformiad cytûn yr awdurdod lleol fel y maent yn berthnasol i'r pennaeth a/neu'r uwch arweinwyr.

Gellir cael manylion llawn am bolisi a gweithdrefnau galluogrwydd a pherfformiad ar ddiwedd yr adran hon.

Pan fydd pryderon am lywodraethu, bydd y partner gwella yn codi'r pryderon hyn yn y lle cyntaf gyda'r prif bartner gwella a chynrychiolydd y cyfarwyddwr ar gyfer yr awdurdod lleol y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddo. Wedyn, bydd y pryderon hyn yn cael eu cyfleu i gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth.

Gall camau dilynol gynnwys:

- cynnal hunanadolygiad gyda'r corff llywodraethol i sefydlu cryfderau a meysydd i'w gwella

- hyfforddiant teilwredig neu fathau eraill o gymorth i feithrin gallu'r corff llywodraethol er mwyn cyflawni agweddau ar ei waith yn fwy effeithiol.

Pan fydd pryderon yn parhau, bydd yr awdurdod lleol yn tynnu sylw cadeirydd y llywodraethwyr atynt mewn datganiad ysgrifenedig. Bydd y datganiad yn egluro natur y pryderon, y gwelliant sydd ei angen a'r raddfa amser y dylai gwelliant ddigwydd ynddi. Pan fydd angen cymorth o bosibl, cytunir ar hyn, a bydd ei effaith yn cael ei fonitro o fewn y raddfa amser gytûn.

Pan fydd tystiolaeth o ystod o ffynonellau yn dangos bod gwelliant annigonol wedi digwydd, bydd y partner gwella yn trafod hyn gyda'r prif bartner gwella a chynrychiolydd y cyfarwyddwr. Bydd yr awdurdod lleol y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddo yn ystyried cyflwyno hysbysiad rhybudd ffurfiol os nad yw wedi gwneud hynny eisoes.

Os na chaiff gwelliant ei wneud o fewn y raddfa amser gytûn, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol ychwanegol yn unol â gweithdrefnau cytûn. Mae'r pwerau statudol yn cynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethol sicrhau cyngor neu gydweithio
- rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethol neu'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill
- penodi llywodraethwyr ychwanegol
- atal awdurdod dirprwyedig y corff llywodraethol i reoli cyllideb ysgol
- sefydlu bwrdd gweithredol dros dro yn lle'r corff llywodraethol
- cyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r corff llywodraethol yn ymddwyn yn afresymol o ran methu cydymffurfio
- ceisio cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i'r corff llywodraethol o dan adran 17 Deddf 2013.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Pwerau Ymyrraeth Statudol

Canllawiau Llywodraeth Cymru: Ysgolion sy'n Peri Pryder

Strategaeth Ymyrraeth

Gweithdrefn Galluogrwydd CCD ar gyfer Athrawon a Phenaethiaid

Polisi Rheoli Perfformiad Enghreifftiol ar gyfer Athrawon a Phenaethiaid

Cofweinydd Rheoli Perfformiad ar gyfer Penaethiaid

Templed Rheoli Perfformiad ar gyfer Penaethiaid

2.8 Cofnodi Deilliannau Gweithgarwch i Fonitro a Gwerthuso Cynnydd

Ar gyfer ysgolion y mae angen adolygiadau cynnydd a SIFs arnynt, mae'n bwysig cofnodi yn ysgrifenedig ddeilliannau gweithgarwch i fonitro a gwerthuso cynnydd. Bydd hyn yn darparu:

- tystiolaeth o'r graddau y mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas
- y ffyrdd i farnu p'un a yw'r cymorth a ddarperir yn cael effaith ar safonau a chynnydd disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth neu'r arweinyddiaeth
- pwynt cyfeirio wrth bennu camau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Dylid cofnodi yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r adroddiad Gwerthuso ar gyfer Gwella.

Bob hanner tymor (cymorth coch) a phob tymor (cymorth ambr), dylai'r partner gwella gofnodi statws barn gryno yn unol â phob un o'r blaenoriaethau. Dylai'r pedair barn bosibl ddilyn y rheiny a ddarparwyd gan Estyn (cyfeiriwch at Atodiad 14 y fframwaith hwn). Dylai hyn adlewyrchu'r asesiad o gynnydd yr ysgol bryd hynny.

Pan gyfeirir at y camau a gymerwyd gan yr ysgol, neu i'w chynorthwyo, dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â'u heffaith ar safonau, cynnydd disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth neu'r arweinyddiaeth. Dylai'r adroddiad werthuso yn hytrach na disgrifio, ar y cyfan.

Dylai'r adroddiadau gwerthuso ar gyfer gwella bob hanner tymor neu bob tymor ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol ei hun, a'r rheiny sy'n darparu cymorth.

Dylai'r cynnydd gynnwys y canlynol yn unol â phob un o'r blaenoriaethau:

- P'un a yw'r adroddiad cynnydd hyd yma yn dda iawn/ yn gryf/yn foddhaol/yn gyfyngedig
- Y rhesymau dros y farn sy'n canolbwyntio ar effaith y gwaith gwella hyd yma ar safonau/cynnydd disgyblion, darpariaeth ac arweinyddiaeth
- Y camau nesaf y mae angen i'r ysgol eu cymryd i sicrhau gwelliant pellach
- Y dystiolaeth sy'n ategu'r gwerthusiad.

Dylid paratoi'r adroddiad bob hanner tymor neu bob tymor cyn y cyfarfod adolygu cynnydd gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr, a'i gwblhau yn dilyn y cyfarfod. Dylid cofnodi pwyntiau gweithredu allweddol o'r cyfarfod yn adrannau camau gweithredu cytûn yr adroddiad bob hanner tymor neu bob tymor.

Adran 3: Cymorth Brocera a Chomisiynu

3.1 Y Broses Fel y Mae'n Berthnasol i Bob Ysgol

1. Mae PG yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r gefnogaeth sydd ei hangen.
2. Mae PG yn cyfeirio at y Cynnig Dysgu Proffesiynol a gall gael sgysiau anffurfiol â chydweithwyr am gefnogaeth briodol. Ni ellir gwneud cytundeb am swyddogion sy'n darparu cefnogaeth yn anffurfiol.
3. Mae PG yn trafod gofynion cymorth ar gyfer ysgolion gyda PBG a all gynghori ar y llwybr mwyaf priodol.
4. Mae PBG yn cwrdd ac yn trafod gofynion cymorth gydag Arweinwyr Strategol a all ddefnyddio swyddogion i gefnogi.
5. Gellir cyflwyno ceisiadau'r Bwrdd Adnoddau yn dilyn protocol y cytunwyd arno ar gyfer cefnogaeth sy'n gofyn am ganfyddiad ychwanegol.
6. Mae sesiynau rhannu gwybodaeth mewnol yn darparu cyfleoedd i drafod ac adolygu cefnogaeth.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

[Cynnig Dysgu Proffesiynol](#)

Adran 4: Cefnogi Datblygiad ar draws yr Holl Ysgolion

4.1 Cynnig Dysgu Proffesiynol

“Gyda’n gilydd, rydym ni’n gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf.”

Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol, Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Yn sgil yr hinsawdd bresennol a graddfa’r diwygio addysgol yng Nghymru, ni fu yna erioed gyfnod pwysicach i athrawon ac arweinwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol. Mae’r newidiadau i’r cwricwlwm yn ganolog i waith mewn ysgolion ac agweddau eraill ar yr agenda ddiwygio, ac maent yn cefnogi’r newid diwylliannol ehangach yn y sector addysg. Trwy waith eu ‘hysgolion fel sefydliadau dysgu’ ac yn gynyddol, trwy ddatblygu ymarferwyr myfyriol sy’n ymgysylltu â’u safonau proffesiynol, gall arweinwyr ysgol sicrhau bod y system yn parhau i ganolbwyntio ar ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel y mae dysgwyr yn ganolog iddynt.


Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn credu’n gadarn mewn system hunanwella sydd wedi’i chynllunio gan ysgolion ar gyfer ysgolion, ac yn cael ei harwain ganddynt. Ers dechrau’r system, mae Her Canol De Cymru wedi ceisio darparu strwythurau i alluogi ysgolion i hwyluso dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar draws ein rhanbarth. Trwy hybiau, ymarferwyr, grwpiau gwella ysgolion, partneriaethau, adolygiad gan gymheiriaid a chlystyrau, mae gan benaethiaid fantais gydweithredol o ran elwa ar ddysgu proffesiynol yn unol â’u blaenoriaethau gwella presennol. Mae CCD hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi arweinyddiaeth, llwybrau gyrfa a thegwch a lles. Trwy eu hymgysylltiad, gall ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cyflawni uchelgais y pedwar amcan galluogi yn Ein Cenhadaeth Genedlaethol.

Yn unol â’r Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol, ceir ymrwymiad i fynediad teg ar gyfer pob ymarferwr. Yn CCD, mae’r cynnig dysgu proffesiynol yn sicrhau bod yr holl ysgolion yn ein rhanbarth yn gallu mynd ati i ddatblygu pob agwedd ar ddysgu, addysgu ac arweinyddiaeth. Yn unol ag yn 2019-2020, ni chodir unrhyw dâl am unrhyw un o’r gweithgareddau a amlinellir yn y cynnig hwn.

Mae rhaglenni dysgu proffesiynol a chyfleoedd rhwydweithio pellach yn cael eu llunio ar y cyd, a byddant yn cael eu cyhoeddi trwy gydol y flwyddyn

[Gallwch fynd at y cynnig dysgu proffesiynol yma.](#)

4.2 Gwefan CCD



Gellir mynd at wefan CCD, www.cscjes.org.uk, a lansiwyd ym mis Mehefin 2016, yn hawdd pan ddefnyddir unrhyw ddyfais wedi'i galluogi gan y rhyngwyd, a gall defnyddwyr bori ynddi ar adeg gyfleus iddynt.

Datblygwyd y system i gynorthwyo defnyddwyr i ddewis eu hoffterau/diddordebau. Bydd gwefan CCD yn anfon diweddariadau am ddigwyddiadau, adnoddau a deunyddiau arfer gorau wedi'u teilwra yn unol â hoffterau unigryw pob defnyddiwr. Gall y rhain ymwneud â blaenoriaethau gwella'r ysgol neu arbenigeddau pwnc.

Mae gwefan CCD yn offeryn ar-lein i gefnogi gwelliant ysgol ar draws y rhanbarth. Caiff hyn ei hwyluso gan gyfleusterau chwilio clyfar sy'n cynorthwyo defnyddwyr i nodi a dod o hyd i ddeunyddiau arfer gorau.

Yn ychwanegol, mae'r system yn cynnwys yr holl wybodaeth am wella ysgolion mewn cymuned ddynodedig; o fewn y system, caiff yr holl ddata lefel ysgol, adroddiadau a gwybodaeth ategol eu dal.

Gall defnyddwyr bori trwy'r holl ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'n [cynnig dysgu proffesiynol](#) trwy'r offeryn digwyddiadau ar y system hefyd. Gellir mynd at ddigwyddiadau o'r dudalen fewngofnodi lle gall defnyddwyr bori heb fod angen mewngofnodi i'r system, wedyn gall defnyddwyr ychwanegu eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair yn yr adran hon i archebu.

Er mwyn gwneud cais am le, cliciwch ar 'archebu' a bydd y system yn hysbysu'r ddesg fusnes am y cais i archebu. Ni chaiff y rhan fwyaf o geisiadau am gymorth eu cadarnhau nes pythefnos cyn rhoi'r cymorth i sicrhau bod nifer ofynnol y cynrychiolwyr yn cael eu cyrraedd.

Bydd defnyddwyr yn cael hysbysiad wedi i'r archeb gael ei chofrestru, a gallant bori trwy'r tabiau 'fy archebion' ('my booked') a 'digwyddiadau ar y gweill' ('pending events') i weld statws eu geisiadau.

I archebu lle y tu allan i'r wefan, cysylltwch â Swyddog Desg Fusnes y Consortiwm. Ffôn: 01443 281404. E-bost: businessdesk@cscjes.org.uk.

Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r system at: communications@cscjes.org.uk.

Adran 5: Rheoli Perfformiad Penaethiaid

Mae canllawiau helaeth ar gyfer partneriaid gwella ynglŷn â'r broses ar gyfer rheoli perfformiad penaethiaid wedi'u cynnwys yn y ddogfen ganlynol: Rheoli Perfformiad Penaethiaid: Cofweinydd.

Yn gryno, mae'r broses yn cynnwys:

- Adolygiad blynyddol o berfformiad y pennaeth yn unol ag amcanion, a gosod amcanion newydd.
- Cymorth parhaus gan y partner gwella ar gyfer paneli llywodraethwyr wrth lunio datganiadau ac amcanion arfarnu ac anogaeth i baneli sydd mewn sefyllfa dda i wneud hynny gymryd mwy o gyfrifoldeb am lunio'r datganiad a'r amcanion arfarnu.
- Un cyfarfod monitro yn ystod y flwyddyn ar gyfer ysgolion sydd angen lefelau cymorth gwyrdd neu felyn, oni bai fod pryderon am gynnydd yn cael eu mynegi gan unrhyw aelod o'r panel.
- Ar gyfer ysgolion lle mae lefel y cymorth yn ambr neu'n goch, monitro o leiaf ddwywaith yn unol â monitro cynnydd yn yr ysgolion hyn yn fwy rheolaidd. Dylid gweld yr ymglymiad hwn fel rhan o unrhyw gymorth a datblygiad proffesiynol ehangach i wella llywodraethu yn yr ysgol.

Mae ymglymiad partneriaid gwella yn y cyfarfodydd adolygu, gosod amcanion a monitro cynnydd yn ffynhonnell bwysig o ran datblygiad proffesiynol i lywodraethwyr wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion lle mae angen cymorth ar y corff llywodraethol i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol.

Bydd partneriaid gwella yn parhau i fynychu'r cyfarfod blynyddol gyda'r panel llywodraethwyr i adolygu cynnydd yn unol ag amcanion, ac i osod amcanion newydd. Bydd partneriaid gwella yn parhau i gofnodi'r nodiadau a bydd yn sicrhau bod cynnwys y datganiad arfarnu yn cael ei gytuno yn y cyfarfod cyn gadael yr ysgol.

Bydd cadeirydd y panel llywodraethwyr yn cymryd cyfrifoldeb am y datganiad arfarnu yn unol â'r gofynion statudol, ond gyda chymorth parhaus gan y partneriaid gwella. Bydd partneriaid gwella yn parhau i sicrhau ansawdd cywirdeb y dogfennau terfynol.

Ble bynnag y bo modd, bydd yr adolygiad o amcanion perfformiad y pennaeth a gosod amcanion newydd yn cael ei gynllunio i gyd-fynd â'r cyfarfod adolygu, her a chymorth yn nhymor yr hydref, neu mor agos ag y bo modd at y cyfarfod hwn.

DOGFENNAU ALLWEDDOL A DOLENNI

Rheoli Perfformiad Penaethiaid - Cofweinydd

Templed Rheoli Perfformiad

Polisi Rheoli Perfformiad Enghreifftiol ar gyfer Athrawon a Phenaeithiaid

Gweithdrefn Galluogrwydd CCD ar gyfer Athrawon a Phenaeithiaid

Atodiad 1: Cwestiynau Allweddol i Gefnogi Hunanwerthuso a Addaswyd o Lawlyfr Hunanwerthuso Estyn

Safonau

Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, a chyrrhaeddiad blaenorol:

1. A ydym ni'n gwneud cystal â, neu hyd yn oed yn well, nag oeddem ni dair blynedd yn ôl?
2. A yw ein perfformiad yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill yn ein teulu? (CA4 yn unig)
3. A yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o un cyfnod allweddol i un arall, gan gynnwys yn eu sgiliau allweddol? Faint o ddisgyblion sy'n gwneud o leiaf ddwy neu dair lefel o gynnydd ar draws CA2 neu CA3 neu o CA2 i CA4?

Ar gyfer ysgolion arbennig yn benodol:

1. Pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd i gyrraedd targedau, yn enwedig y rheiny a osodir mewn adolygiadau blynyddol ac mewn cynlluniau unigol? A yw disgyblion yn gwneud y cynnydd sy'n ddisgwyliedig ohonynt?
2. Faint o'n disgyblion sy'n gadael yr ysgol gyda chymwysterau cydnabyddedig?

Ar gyfer ysgolion uwchradd yn benodol:

1. A ydym ni mewn sefyllfa dda i roi'r trefniadau ar waith ar gyfer casglu data deilliannau disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ar gyfer B11 a B10?
2. Faint o ddisgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig? A fu unrhyw welliant dros y tair blynedd ddiwethaf?
3. Faint o'n myfyrwyr sy'n parhau mewn addysg amser llawn ar ddiwedd y cyfnod allweddol (nid y rheiny sy'n aros ymlaen yn y chweched dosbarth yn unig)?
4. Faint o'r myfyrwyr sydd wedi gadael ein hysgol nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant? A fu unrhyw welliant dros y tair blynedd ddiwethaf?

Safonau a gyflawnir gan unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion:

1. A yw targedau'r ysgol yn dilyn y canllawiau ar osod targedau, yn adlewyrchu disgwyliadau uchel, yn ymwneud â disgyblion unigol, ac a ydynt yn rhan annatod o gynllunio gwelliant yr ysgol?
2. A oes bwriad clir i addasu targedau am i fyny lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl?
3. A yw unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da? A ydynt yn bodloni eu deilliannau disgwyliedig sy'n adlewyrchu disgwyliadau uchel?
4. Pa mor dda y mae perfformiad ein disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymharu â disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol a gyda gwahaniaethau lleol neu genedlaethol?

5. A yw'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy neu'n llai na thueddiadau cenedlaethol?
6. A yw disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni eu potensial? A yw'r disgyblion hyn yn cyflawni'r graddau a uwch a lefelau uwch y cwricwlwm cenedlaethol?
7. A yw disgyblion ag AAA yn cyflawni nodau dysgu cytûn?
8. Beth am grwpiau eraill sy'n dueddol o dangyflawni, fel plant sy'n derbyn gofal a disgyblion ethnig lleiafrifol?
9. A yw unrhyw grwpiau yn perfformio'n well na'r garfan yn gyffredinol? Pa mor dda y mae eu perfformiad yn cymharu â'r un grwpiau yn lleol neu'n genedlaethol?

Presenoldeb

1. Pa mor dda y mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn cymharu â'r ffigurau cenedlaethol ac ysgolion tebyg (gan ddefnyddio ffigurau meincnod LIC)?
2. A ydym ni'n gwneud cystal â, neu hyd yn oed yn well, nag oeddem ni dair blynedd yn ôl?
3. A oes amrywiadau sylweddol rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion?
4. A ydym ni'n ymyrryd yn effeithiol i sicrhau gwelliant ar gyfer unigolion a grwpiau?

Ymddygiad a gwahardd

1. A yw disgyblion yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol?
2. A yw cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn cymharu'n dda â ffigurau cenedlaethol a rhai ysgolion tebyg? Mewn ysgolion uwchradd yn arbennig, sut mae'r ffigurau ar gyfer gwaharddiadau i bob 1,000 o ddisgyblion a'r diwrnodau cyfartalog a gollir yn sgil gwaharddiadau cyfnod penodol yn cymharu?

Addysgu

1. A yw'r ysgol yn cael golwg cywir ar ansawdd addysgu pob un o'r athrawon? A gaiff hyn ei lywio gan dystiolaeth uniongyrchol?
2. Pa gyfran o'r addysgu sy'n rhagorol, yn dda, yn ddigonol neu'n anfoddhaol?
3. A oes gan yr ysgol strategaethau effeithiol ar gyfer gwella addysgu?

Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

1. A oes systemau ar waith sy'n olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ym mhob grŵp blwyddyn a strategaethau clir i ymyrryd lle nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd da? A yw athrawon yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion unrhyw unigolion nad ydynt yn gwneud cynnydd cystal?
2. A yw uwch arweinwyr yn cael gwybodaeth amserol a chyfoes am gyflawniad disgyblion a chryfderau neu wendidau?
3. A yw disgyblion yn adolygu eu dysgu a'u cynnydd eu hunain yn rheolaidd, ac yn cyfrannu at osod eu

targedau eu hunain?

4. A yw'r ysgol yn darparu adborth effeithiol i hysbysu disgyblion am eu dysgu?
5. A yw'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod asesiadau yn ddilys ac yn ddibynadwy?
6. A oes eglurder am gyfrifoldeb statudol y pennaeth i sicrhau bod asesiadau athrawon yn cael eu cymedroli, a bod trefniadau clir ar waith i gyflawni hyn yn ystod y flwyddyn ar sail clwstwr?

Effaith yr arweinyddiaeth

1. A oes gan yr ysgol nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion disgyblion?
2. A yw pob un o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol?
3. Pa mor dda y mae'r ysgol yn rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol ein staff er mwyn eu helpu i wella eu harfer? A ydym ni'n mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol lle bydd angen?
4. A oes eglurder am y berthynas rhwng arweinyddiaeth, addysgu, asesu a'r effaith ar safonau?
5. A oes tystiolaeth o effaith yr arweinyddiaeth ar wella deilliannau?

Llywodraethu

1. Pa mor dda y mae ein llywodraethwyr yn deall eu rolau, yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol?
2. A ydynt yn cefnogi ein hysgol fel ffrindiau beirniadol, ac yn ein dwyn i gyfrif am y safonau a'r ansawdd yr ydym yn eu cyflawni?

Gwella ansawdd

1. A ydym ni'n gwerthuso ac yn monitro data ar safonau ac ansawdd yr addysg yn drylwyr, gan gynnwys ystyried tueddiadau a chynnydd dros gyfnod
2. A yw'r gwerthusiad o gryfderau a meysydd i'w gwella yn drylwyr ac yn gywir?
3. A ydym ni'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu?
4. A ydym ni'n ystyried safbwyntiau ein staff, disgyblion, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill?
5. A oes cysylltiad uniongyrchol rhwng canlyniadau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn ein cynlluniau gwella?
6. A wneir cysylltiad cryf rhwng y gweithgarwch gwella arfaethedig a'r angen i fynd i'r afael â gwendidau penodol disgyblion mewn gwybodaeth a sgiliau a gwendidau a nodwyd mewn unrhyw ffactorau eraill sy'n amharu ar safonau?
7. A ydym ni'n rhoi strategaethau cadarn ar waith sy'n debygol o ysgogi'r gwelliannau dymunol, a gefnogir trwy ddyrannu adnoddau addas?

8. A yw ein camau gweithredu wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau ac ansawdd dros y blynyddoedd diwethaf?
9. A yw cynlluniau gwariant y Grant Gwella Ysgolion yn hanfodol i gynllunio gwelliant yr ysgol? A yw'r ysgol yn glir ynglŷn â'r angen i ddangos effaith y ffordd y mae'n gwario'r grant, gan gynnwys lleihau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim ar sail gwelliant gan y ddau grŵp?
10. A gaiff cymorth o ysgol i ysgol ei gynllunio fel rhan o strategaeth wella'r ysgol?

Diogelu

1. A yw ein trefniadau ar gyfer diogelu plant yn briodol ac a ydym yn cydymffurfio ag arfer gorau?
2. A yw pob un o'r staff wedi eu hyfforddi ac a ydynt yn cydymffurfio â'n trefniadau diogelu?
3. A yw ein polisi yn nodi: cyfrifoldebau'r uwch aelod o staff a enwyd ar gyfer ymdrin â materion amddiffyn a diogelu plant, ac ar gyfer darparu cyngor/cymorth i staff eraill; cyfrifoldebau'r llywodraethwr dynodedig am amddiffyn a diogelu plant; gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008; trefniadau ar gyfer hyfforddi?
4. A oes gennym ni drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr, ac a yw ein trefniadau yn bodloni gofynion cyfreithiol?

Atodiad 2: Cwestiynau i Gefnogi Paratoi ar gyfer y Cyfarfod gydag Ysgolion ym mis Medi

Safonau

Detholiad o Ddatganiad y Gweinidog Gorffennaf 3ydd 2020

'Pan gyhoeddais ganslo cyfres arholiadau haf 2020, oherwydd y pandemig coronafirws, cadarnheais hefyd na fyddem yn cyhoeddi mesurau perfformiad. Roedd y penderfyniad hwnnw'n cwmpasu'r holl fesurau perfformiad ysgolion ac ôl-16 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20.

Mae'n amlwg y bydd goblygiadau hefyd o darfu parhaus ar ysgolion a darparwyr ôl-16 ar gyfer cymwysterau a ddyfernir y flwyddyn nesaf, yn enwedig y rhai sy'n gyrsiau astudio dwy flynedd. Rwyf, felly, yn darparu eglurder cynnar y bydd atal Cyfnod Allweddol 4 a mesurau perfformiad chweched dosbarth etifeddiaeth yn cael eu hymestyn i flwyddyn academiaidd 2020/21.

Bydd yn ofynnol o hyd i bob ysgol a darparwr ôl-16 gynnal hunanarfarniad effeithiol i gefnogi gwelliant parhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn gofyn am ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth ymgymryd â hunanarfarnu a nodi blaenoriaethau gwella. Bydd hyn yn cynnwys ysgolion, gyda chefnogaeth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan ddefnyddio'r wybodaeth ar lefel dysgwyr sydd ganddynt ar gyrhaeddiad a chanlyniadau eraill i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.

Yn 2020/21, fel ar gyfer 2019/20, ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael eu defnyddio i adrodd ar ganlyniadau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu gonsortiw rhanbarthol ac ni ddylid eu defnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ganlyniadau eu dysgwyr. Roedd fy sicrwydd blaenorol na fydd dyfarniadau'n cael eu defnyddio fel hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallai dyfarnwyr gael canlyniadau teg, yn seiliedig ar raddau gwrthrychol a aseswyd mewn canolfannau, heb y pwysau sy'n gysylltiedig â mesurau perfformiad neu drefniadau atebolrwydd'.

Safbwynt CCD

Mae'n bwysig nodi a deall, yn dilyn ataliad Llywodraeth Gymru (LIC) o gasgliadau data statudol a chyhoeddi canlyniadau ar gyfer 2019/2020 a 2020/21, y bydd gostyngiad yn y dadansoddiad sydd ar gael o fewn CCD. Fodd bynnag, bydd gan ysgolion eu systemau mewnol eu hunain ar gyfer olrhain a dadansoddi perfformiad / canlyniadau disgyblion ac er nad oes disgwyl y bydd angen i ysgolion ddarparu'r wybodaeth hon i Bartneriaid Gwella CCD am resymau atebolrwydd, gellir ystyried bod y cwestiynau canlynol yn dal i gael eu defnyddio gan gydweithwyr mewn trafodaeth ag arweinwyr ysgolion i lywio cefnogaeth CCD ar gyfer gwella ysgolion a gweithio mewn partneriaeth yn 2020-21.

Ar y cyfan

1. Beth mae'r dadansoddiad data yn ei nodi am gryfderau a meysydd i'w gwella?
2. Pa brif ddangosydd (ion) a wellodd y llynedd? Pam / sut?
3. Pa brif ddangosyddion a oedd wedi lleihau perfformiad yr ysgol y llynedd a pha gynlluniau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â hyn?
4. Dros gyfnod o dair blynedd, beth yw'r tueddiadau mewn perfformiad yn y prif ddangosyddion?

5. A yw perfformiad yn uwch, yr un fath â'r disgwyl yn y prif ddangosyddion (ychydig / llawer), neu'n is na'r disgwyl? Os oes gwahaniaeth nodedig, beth allai fod wedi achosi hyn?
6. A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol sydd wedi effeithio ar berfformiad ar gyfer y dangosydd / pwnc hwn?
7. Pa mor dda y mae disgyblion EOTAS wedi perfformio a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?
8. Pa ddata mae'r ysgol yn ei gasglu i ddadansoddi perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd? Beth mae data'r ysgol yn ei awgrymu am gryfder sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion dros amser?
9. A oes tueddiadau dros amser i raddio dosbarthiadau? Sut mae'r dosbarthiadau gradd yn cymharu ar draws pynciau yn yr ysgol?
10. Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni ar y graddau uwch? A oes gwahaniaeth amlwg rhwng pynciau craidd? Sut mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau D / E a graddau A / A* yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?
11. Sut mae perfformiad mewn pynciau nad ydynt yn rhai craidd yn cymharu â pherfformiad yn y pynciau craidd? Ym mha bynciau mae myfyrwyr yn gwneud orau / gwaethaf?
12. Sut mae canran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn ail iaith Gymraeg yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?
13. Perfformiad grwpiau penodol - sut mae grwpiau penodol o ddisgyblion wedi perfformio yn y prif ddangosyddion a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol? (Bechgyn / Merched, PYDd / dim PYDd, Du ac Ethnig Lleiafrifol, Gofalwyr Ifanc, ADY, MAT, teithiwr Sipsiwn, SIY, PDG, Addysgir Heblaw am yn yr Ysgol (EOTAS)).
14. Faint o fyfyrwyr sy'n aros mewn addysg amser llawn ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 (nid dim ond y rhai sy'n aros ymlaen yn y chweched dosbarth) a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol? Yn yr un modd, faint o fyfyrwyr a symudodd ymlaen i gyrsiau addysg uwch neu addysg bellach briodol ar ddiwedd y chweched dosbarth a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol?

Grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i dangyflawniad

1. O ystyried bod cynhwysiant yn broses, a allech chi ddweud wrthyf sut rydych chi wedi datblygu polisïau ac arferion i gael gwared ar rwystrau i addysg a gwella mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltiad i bob plentyn?
2. Sut mae'r ysgol yn nodi dysgwyr agored i niwed?
3. Pa mor effeithiol yw'r ysgol wrth fonitro cynnydd dysgwyr agored i niwed?
4. Pa mor dda mae'r ysgol yn diwallu anghenion pob dysgwr? Beth yw ansawdd y gwahaniaethu mewn gwersi bob dydd sy'n gwneud addysgu a dysgu yn hygyrch i bob disgybl a sut mae'r ysgol yn gwybod?
5. Sut mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion bregus am eu profiadau bob dydd yn yr ysgol a sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau?
6. Pa mor wybyddol yw'r holl athrawon am gynnwys ac argymhellion Cynlluniau Addysg Unigol y Disgyblion? Sut ydych chi'n gwybod bod pob athro yn defnyddio IEPS i lywio addysgu a dysgu ar gyfer

disgyblion ADY?

7. Sut mae cyfraddau cyfranogi disgyblion agored i niwed mewn gweithgareddau allgyrsiol a chlybiau ar ôl ysgol yn cymharu â disgyblion nad ydynt yn agored i niwed?
8. Sut mae'r ysgol yn cefnogi ac yn olrhain cynnydd y disgyblion hynny sy'n EOTAS a sut mae'r ysgol yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth y maent yn ei derbyn oddi ar y safle?
9. Pa mor effeithiol yw'r ysgol wrth gefnogi trosglwyddo disgyblion o'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ôl i'r ysgol neu ddisgyblion sy'n rhan o symudiad a reolir?
10. Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth wrth godi safonau disgyblion PYDd a sut ydych chi'n gwybod?
11. Pa mor effeithiol yw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yr ysgol wrth gyflymu cynnydd dysgwyr ag ADY?
12. Sut mae'r ysgol yn monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed a sut mae hyn yn cael ei gasglu?
13. Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio oedolion ychwanegol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed? Pa effaith mae hyn wedi'i chael dros amser?
14. Sut mae disgyblion PYDd wedi elwa ar y Grant Datblygu Disgyblion? Beth oedd yr effaith? Pa dystiolaeth sydd gan yr ysgol i ddangos gwerth am arian mewn perthynas â gwariant GDD?
15. Sut mae llywodraethwyr yn cael dystiolaeth uniongyrchol o safonau addysgu, dysgu a chynnydd grwpiau bregus? Pa mor aml mae hyn yn digwydd? Sut mae llywodraethwyr yn cael gwybod am effaith gwariant GDD ar ddisgyblion PYDd a sut maen nhw'n herio'r ysgol?
16. Beth yw amllder cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni / gofawyr disgyblion sy'n agored i niwed ac a yw wedi arwain at ganlyniadau gwell?
17. Pa ymyriadau sydd ar waith ar gyfer grwpiau agored i niwed? Pa mor effeithiol ydyn nhw, ydyn nhw'n darparu gwerth am arian a sut mae'r ysgol yn gwybod? A ydyn nhw wedi arwain at welliannau cynaliadwy dros amser?
18. Pa rai o ddisgyblion carfan y llynedd (B2/6/11) a oedd yn derbyn gofal, gofawyr ifanc, Du ac Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn Teithwyr, bechgyn, merched, PYDd, Addysgir Heblaw am yn yr Ysgol (EOTAS), SIY? I ba raddau roedd eu canlyniadau wedi cwrdd â'r disgwyliadau?

Presenoldeb ac Ymddygiad

1. Beth yw'r tueddiadau mewn data presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf?
2. Pa mor effeithiol yw dull yr ysgol o reoli ymddygiad? (er enghraifft lleihau nifer y diwrnodau a gollir oherwydd gwaharddiad; nifer y plant ar amserlen lai; nifer y plant ar EOTAS; trosglwyddiadau canol blwyddyn a symudiadau a reolir)
3. A yw cwricwlwm yr ysgol yn cynnig effaith ar lefelau presenoldeb? Hynny yw, a yw'n ddeniadol, yn gyffrous ac wedi'i bersonoli i anghenion disgyblion fel eu bod am ddod i'r ysgol?
4. A yw'r ysgol yn monitro presenoldeb grwpiau sy'n agored i dangyflawniad? Pa ddefnydd sy'n cael ei

wneud o'r wybodaeth hon i godi lefelau presenoldeb?

Disgwyliadau

1. Sut mae'r ysgol yn dangos uchelgais i ddisgyblion?
2. Sut mae'r ysgol yn brwydro yn erbyn dyheadau isel? A yw'r ysgol yn defnyddio'r modelau rôl ar gyfer dysgwyr? Sut / Pa mor effeithiol? Pryd mae'r ysgol yn dechrau mapio llwybrau gyrfa? Sut / Pa mor effeithiol? Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn ymgysylltu â darparwyr addysg uwch, cyflogwyr a'r gymuned ehangach i godi dyheadau?
3. Sut mae targedau ar gyfer disgyblion yn cael eu cynhyrchu a sut mae cynnydd tuag at dargedau yn cael ei fonitro a chan bwy?
4. Beth yw ansawdd y targedau lleol a pha effaith y mae gosod targedau lleol wedi'i chael ar wella canlyniadau i ddisgyblion dros amser?
5. Beth yw'r gydberthynas dros y tair blynedd diwethaf rhwng y targedau a osodwyd ar gyfer disgyblion a chanlyniadau gwirioneddol? A yw'r ysgol yn gwerthuso trylwyredd a chywirdeb ei phrosesau gosod targedau? Sut?
6. Sut mae'r wybodaeth am gynnydd disgyblion tuag at dargedau a ddefnyddir gan yr holl staff i ddiwygio addysgu a dysgu neu sicrhau cefnogaeth ychwanegol i'r disgyblion hynny a allai fod ei angen?
7. A yw'r holl staff yn gwybod beth yw'r safonau a'r cynnydd disgwylidig ar gyfer disgyblion ar bob lefel ac yn darparu gweithgareddau sy'n cyfateb yn dda i'w gallu?
8. A yw targedau cyffredinol yr ysgol yn cynrychioli ac yn agregu targedau ar gyfer disgyblion unigol?
9. A yw targedau'n cael eu diwygio i fyny pan wneir cynnydd gwell na'r disgwyl?
10. A yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd a addysgwyd yn flaenorol ar y lefel briodol?
11. A yw disgyblion yn ysgrifennu i'r un safon mewn pynciau eraill ag y maent mewn gwersi Saesneg?
12. A yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso sgiliau a ddysgwyd o'r blaen fel dwyieithrwydd, DCF a sgiliau datrys problemau?
13. Pa mor rhan yw disgyblion wrth adolygu eu dysgu eu hunain? Sut mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion wrth osod targedau ac a yw disgyblion yn deall y rhesymeg y tu ôl iddi?
14. Pa mor dda y mae rhieni'n deall pwrpas gosod targedau a sut mae'r ysgol yn rhoi gwybod i rieni am gynnydd disgyblion?

Asesu

1. Pwy sy'n ysgrifennu polisi marcio ac asesu'r ysgol? Pa mor dda y mae'r holl staff yn deall egwyddorion y polisi ac yn sicrhau eu bod yn cadw ato? A yw'r polisi wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd asesiad crynodol a ffurfiannol yn yr ysgol dros amser?

2. Pa ddysgu proffesiynol y mae'r ysgol yn ei ddarparu i staff ynghylch asesu ac asesu dysgu? A yw'r ysgol yn annog staff i gynnal ymchwil weithredu yn y maes hwn?
3. Pa mor ddiogel yw'r asesiad athrawon yn yr ysgol? Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau dibynadwyedd? Sut mae arweinwyr yn gwybod?
4. Pa systemau olrhain y mae'r ysgol yn eu defnyddio a pha effaith y maent wedi'i chael hyd yn hyn? A ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n effeithiol i lywio camau nesaf a llwybrau dilyniant disgyblion? A oes gormod o systemau sy'n creu gormod o faich i staff, yn brin o eglurder ac nad ydynt wedi cael unrhyw effaith ar godi safonau dros amser?
5. Pa fath o ddata crynodol a ffurfiannol sy'n cael ei gasglu?
6. Sut mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth grynodol a ffurfiannol i ddisgyblion i gynllunio ar gyfer dilyniant, sicrhau gwahaniaethu o ansawdd uchel ym mhob dosbarth a bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn?
7. A yw'r ysgol yn ystyried barn yr holl oedolion sy'n ymwneud ag addysgu'r disgybl wrth asesu cynnydd disgyblion a'r camau nesaf?
8. Pa mor effeithiol yw adborth / marcio ysgrifenedig? Pa mor aml mae'r ysgol yn casglu hyn a sut? Sut mae'r canfyddiadau wedyn yn cael eu trosglwyddo i staff a pha effaith mae hyn wedi'i gael hyd yma?
9. Beth yw ansawdd adborth llafar a chwestiynu mewn gwersi ac a yw'n symud dysgu ymlaen? Sut mae'r ysgol yn gwybod?
10. A yw'r ysgol wedi datblygu proses hunanasesu ac asesu cymheiriaid gadarn ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hymgorffori'n dda ac sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu neu a yw'n symbolaidd ac ychydig iawn o effaith a gafodd ar ddysgu?
11. A oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'u camau nesaf mewn dysgu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd pellach? Sut mae'r ysgol yn gwybod?

Addysgu

1. Sut mae dealltwriaeth yr ysgol o sut mae addysgu a dysgu rhagorol yn edrych? Sut y cyrhaeddodd y gyd-dealltwriaeth hyn? Sut mae'r disgwyliadau hyn yn cael eu rhannu gyda'r staff a'r disgyblion?
2. Sut mae'r ysgol yn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu? Sut mae'r ysgol yn gwybod? Sut all yr ysgol ei dangos a ble mae'r dystiolaeth? Pa gamau mae'r ysgol wedi'u cymryd? Pa effaith mae'r gweithredoedd hyn wedi'i chael? Beth sydd nesaf?
3. A yw barn yr ysgol ar safonau addysgu a dysgu yn gywir? Sut ydych chi'n gwybod fel Partner Gwella? Ydych chi'n gweld tystiolaeth uniongyrchol yn rheolaidd ynghylch safonau addysgu a dysgu?
4. Beth yw ansawdd yr amgylchedd dysgu a pha mor effeithiol y defnyddir adnoddau amser i gefnogi addysgu a dysgu?
5. Sut mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd oedolion ychwanegol mewn gwersi a'r effaith y maent yn ei chael ar safonau addysgu a dysgu?
6. Sut mae disgyblion yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau i addysgu a dysgu?

7. Ble mae'r addysgu cryfaf yn yr ysgol? Pa nodweddion sy'n gwneud yr arfer hwn yn gryf? Sut mae'r arfer gorau hwn yn cael ei rannu?
8. Ble mae'r addysgu gwannaf yn yr ysgol? Pa nodweddion sy'n gwneud yr arfer hwn yn wan?
9. Sut mae athrawon gwannach yn cael eu cefnogi i wella eu harfer?
10. Pa adnoddau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i lywio gwelliannau i addysgu a dysgu e.e. Estyn, Dogfennaeth CCD, Ymchwil, gwybodaeth Sutton Trust ac ati.

Arweinyddiaeth

Hunanarfarniad

1. A oes gan yr ysgol ffocws clir ar y cysylltiad rhwng cyflawniad disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth?
2. Pa mor effeithiol yw prosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu dros amser? Pa effaith y mae felly wedi'i chael ar wella safonau addysgu, arweinyddiaeth a chanlyniadau disgyblion?
3. A all yr ysgol ddangos enghreifftiau lle mae hunanarfarnu wedi arwain at angen am newid mewn systemau, arferion neu ddiwylliant?
4. A oes gan yr ysgol ddiwylliant o arwain newid cynaliadwy trwy hunanarfarnu ansawdd ac a yw pob arweinydd yn deall y rhan y maent yn ei chwarae wrth gefnogi'r diwylliant hwn?
5. A yw'r AHA yn rhoi golwg gywir, gytbwys o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth?
6. Beth yw maint y ffocws ar lythrennedd a rhifedd yn yr AHA?
7. Beth yw ansawdd hunanarfarniad yr ysgol? A yw'n onest, yn werthusol ac yn gynhwysfawr gyda ffocws ar effaith? A yw hunanarfarnu yn adlewyrchu cynnydd tuag at unrhyw argymhellion gan Estyn neu CCD?
8. A oes calendr o weithgareddau hunanarfarnu (craffu ar lyfrau, gwranddo ar ddysgwyr, teithiau dysgu, cynllunio craffu ac ati) yn digwydd? A yw pob arweinydd dysgu yn cymryd rhan? Sut mae canlyniadau monitro'n cael eu casglu? Os yw gweithgareddau monitro yn nodi meysydd i'w gwella, sut mae'r ysgol yn sicrhau bod pobl yn gweithredu ar y rhain ac yn cael yr effaith? (Cau'r ddolen).
9. A yw prosesau hunanarfarnu yn cynnwys yr holl randdeiliaid?
10. Sut mae disgyblion yn cael eu defnyddio wrth hunanarfarnu?
11. A yw meysydd a nodwyd i'w gwella o'r AHA yn y Cynllun Gwella Ysgol?

Llywodraethu

1. Sut mae'r corff llywodraethu yn dwyn yr ysgol i gyfrif? Ble mae'r dystiolaeth?
2. A yw'r corff llywodraethu yn gwerthuso ei effeithiolrwydd wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif?
3. Pa ddata y mae'r corff llywodraethu yn ei dderbyn a sut mae hyn yn cael ei herio?

4. A yw'r corff llywodraethu yn chwarae rhan weithredol yn y broses hunanarfarnu ac mewn cynllunio strategol? A yw'r corff llywodraethu yn monitro cynnydd wrth weithredu'r CGY yn ystod y flwyddyn? Sut / pa mor effeithiol?
5. Sut / beth mae'r corff llywodraethu yn ei wybod am safonau, ansawdd yr addysgu, effaith arweinyddiaeth yn yr ysgol?

Cynllunio Gwella Ysgol

1. A yw'r CGY wedi'i seilio'n glir ar ganlyniadau hunanarfarnu a'r adolygiad o'r CGY blaenorol?
2. A yw'r CGY yn cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol?
3. Sut mae'r ysgol yn paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru?
4. Pa mor dda yw'r ysgol wrth ymgorffori egwyddorion yr OECD 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'?
5. Beth yw blaenoriaethau allweddol yr ysgol ar gyfer eleni? A dros y tair blynedd nesaf? Pa mor briodol yw'r rhain? Ar beth maen nhw'n seiliedig?
6. Beth yw'r prif rwystrau i welliant pellach yn yr ysgol?
7. A yw arweinwyr wedi gwerthuso effaith CGY y llynedd? A gyflawnodd y canlyniadau a fwriadwyd?
8. Pe bai angen i'r ysgol hon wella'n gyflym beth fyddai ei angen?
9. Pe bawn i'n athro yn yr ysgol hon, a fyddai'r CGY yn glir i mi fel map ffordd ar gyfer gwella?
10. Pa mor llwyddiannus yw'r Cyfnod Sylfaen, gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, asesu ar gyfer dysgu, Sgiliau Pisa, Bagloriaeth Cymru, DCF, TGAU?
11. A yw targedau / meini prawf llwyddiant yn y CGY yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgwyr?
12. A yw'r CGY yn bodloni gofynion statudol
13. A yw gweithredoedd o fewn y CGY yn glir ac yn fanwl gywir? A ydyn nhw'n debygol o sicrhau'r gwelliant angenrheidiol? A yw'r cynllun yn cyfeirio at gyfrifoldebau, amserlenni, cerrig milltir, gofynion adnoddau?
14. A yw defnydd yr ysgol o grant yn glir o fewn y cynllun? A yw'r ysgol wedi defnyddio ymchwil ac arfer da wrth benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'r GDD yn benodol?
15. Beth yw ansawdd cynlluniau dysgu proffesiynol?
16. Sut mae'r ysgol yn cynllunio i sicrhau gwelliant sy'n gynaliadwy?
17. A yw'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso yn glir ac yn briodol?
18. A yw polisiâu statudol yn gyfredol? A yw'r ysgol yn ymwybodol o'r rhain?
19. Sut mae arweinwyr yn paratoi ar gyfer pwysau cyllidebol?
20. A yw'r ysgol yn ymwybodol o ganllawiau ac adroddiadau perthnasol gan Estyn?

Adeiladu Gallu

1. Pa mor llwyddiannus yw uwch arweinyddiaeth, llywodraethu ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgol? Sut wyt ti'n gwybod?
2. Pa ddefnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a pha effaith y mae hyn wedi'i chael hyd yma?
3. Sut mae'r ysgol yn nodi ac yn tyfu arweinwyr y dyfodol a rheoli olyniaeth?
4. Sut mae'r ysgol yn datblygu llywodraethwyr?
5. Faint o gydweithwyr sydd wedi cofrestru a chwblhau rhaglenni arweinyddiaeth yn llwyddiannus (Arweinwyr Canol, CPCP a Darpar Benaethiaid ac ati) dros y tair blynedd diwethaf? Beth fu'r effaith a ble maen nhw nawr?
6. Sut mae uwch arweinwyr yn cymell staff? Pa adborth maen nhw'n ei gael am eu perfformiad? Sut mae arweinwyr uwch a chanol yn dwyn pobl i gyfrif?
7. Sut mae'r ysgol yn dathlu llwyddiant?
8. A oes unrhyw staff sy'n arholwyr ar gyfer byrddau arholi neu sydd wedi cwblhau hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid Estyn? Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r sgiliau hyn?

Cefnogaeth Ysgol i Ysgol

1. Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu ar y cyd ag ysgolion eraill, pa mor effeithiol fu hi a pha wahaniaeth y mae wedi'i wneud i ganlyniadau dysgwyr? Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
2. A yw'r ysgol wedi gwerthuso effaith gwaith cydweithredu a gwella yn yr AHA?
3. A yw cydweithredu yn rhan o gynlluniau gwella'r ysgol yn y dyfodol?
4. A yw'r ysgol wedi rhannu ei harfer ag ysgolion eraill, pa mor fuddiol yw hyn?
5. A yw cydweithredu yn rhan o'r strategaeth wella os yw'r ysgol yn ysgol ambr neu goch? A yw'r Partner Gwella wedi darparu diweddariadau ar effaith gweithio ar y cyd mewn cyfarfodydd cynnydd ysgolion coch / ambr?

Atodiad 3: Canllawiau Wrth Gymhwyso Statws CAG a Llunio Barnau am Gynnydd mewn Ysgolion y Mae Angen Adolygiad Cynnydd neu Gyfarfod SIF

Bydd yn talu ar ei ganfed i neilltuo amser i weithio gydag ysgol i sicrhau bod ei phrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant mor gryf ag y bo modd, a bydd yn arwain at fonitro ac adrodd am gynnydd yn fwy ystyrlon. Yn benodol, dylai'r partneriaid gwella deimlo'n hyderus fod y targedau a osodir ar gyfer disgyblion a'r deilliannau y dylent eu cyflawni yn adlewyrchu disgwyliadau uchel ar ran yr holl athrawon (gweler canllawiau ar osod targedau).

Mae'n bwysig fod y barnau sy'n ategu'r statws CAG, adroddiadau monitro ac adroddiad cynnydd bob hanner tymor neu bob tymor yn cael eu llywio gan:

- y graddau y mae camau cytûn allweddol wedi cael eu rhoi ar waith;
- effeithiolrwydd ac effaith y camau a gymerwyd gan yr ysgol o ran pob blaenoriaeth;
- y dystiolaeth sy'n ategu'r gwerthusiad a'r barnau, yn enwedig y dystiolaeth yn ymwneud â chynnydd disgyblion; a'r
- bwlb rhwng perfformiad a chynnydd presennol a'r deilliannau bwriadedig fel y maent wedi'u nodi mewn targedau a meini prawf llwyddiant yng nghynllun gwella'r ysgol.

Dylid llunio barn ym mhob adroddiad cynnydd yn ymwneud â'r cynnydd mae'r ysgol yn ei wneud tuag at y targedau a'r meini prawf llwyddiant yng nghynllun gwella'r ysgol ac sydd wedi'u nodi yn y templed monitro.

Ym mhob achos, dylai'r partneriaid gwella fod yn fodlon fod yr ysgol yn glir ynghylch:

- y disgyblion hynny sydd ar y trywydd iawn i gyflawni deilliannau disgwylidig y cyfnod sylfaen, lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu raddau arholiadau;
- y disgyblion hynny nad ydynt ar y trywydd iawn; a'r
- camau a gymerir i helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cyflymach.

Mae gwahaniaeth rhwng gweithredu a gwella darpariaeth ac effaith y rhain ar ddeilliannau. Gall arweinwyr ysgol fod yn cymryd camau priodol, a gall y camau hyn fod ar y trywydd iawn. Os felly, dylid nodi hyn. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i ysgol wneud mwy na dangos bod camau'n cael eu cymryd neu fod darpariaeth yn ei lle. Y prawf allweddol fydd "Beth yw effaith hyn, a beth yw'r dystiolaeth ar gyfer hyn?" Bydd angen i'r ysgol ddangos dystiolaeth fod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cael effaith amlwg ar sicrhau'r gwelliant a fwriedir yn y cynllun. Bydd y gwelliant yn ymwneud yn arbennig â chynnydd a safonau cyflawniad disgyblion, a gall ymwneud ag agweddau eraill hefyd fel ansawdd yr addysgu, presenoldeb, agweddau ar lywodraethu ac arweinyddiaeth.

Dylid cymhwyso statws CAG yn unol â phob un o'r targedau neu'r meini prawf llwyddiant a amlygir ar dudalen flaen y templed monitro. Dylai'r defnydd o farnau am gynnydd da iawn, cryf, boddhaol neu gyfyngedig ymwneud ag effaith gwaith yr ysgol ar sicrhau gwelliant, a dylid eu defnyddio yn adran gwerthusiad yr adroddiad cynnydd.

Er mwyn barnu bod cynnydd yn dda iawn (gwyrdd), byddai angen i bartneriaid gwella gael dystiolaeth gadarn o effaith yn deillio o ffynonellau perthnasol a fyddai'n cynnwys:

- tystiolaeth gadarn a dibynadwy o asesiad yr ysgol am lefelau cynnydd disgyblion yn unol â'r deilliannau y disgwylir iddynt eu cyflawni a ddylai adlewyrchu disgwyliadau uchel. Dylid eu haddasu tuag i fyny lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl;
- tystiolaeth am welliannau yn ansawdd yr addysgu o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion gan yr ysgol ac mewn partneriaeth;
- tystiolaeth am bresenoldeb neu waharddiadau yn ystod y flwyddyn;
- tystiolaeth o gyfarfodydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac o drafodaeth wedi'i thriogli gyda staff; a
- thystiolaeth o gysylltu â chyrrff llywodraethol.

Fodd bynnag, ym mhob achos, dylai partneriaid gwella fod yn ofalus cyn ymrwymo i farn fod cynnydd yn dda iawn (gwyrd) neu'n gryf (melyn). I ysgolion y mae angen lefelau cymorth ambr neu goch arnynt, mae'n debygol y bydd angen amser i ddangos effaith sy'n argyhoeddedig a chynaledig. Bydd data ar ddiwedd cyfnod allweddol a data asesu terfynol yn ystod blwyddyn yn bwysig wrth lunio barnau terfynol am ddeilliannau cyflawniad.

Mae'r farn fod cynnydd yn foddhaol (ambr) yn galluogi'r partneriaid gwella i adlewyrchu'r ffaith fod yr ysgol yn cymryd camau priodol a gall fod tystiolaeth o effaith sy'n dod i'r amlwg hefyd. Fodd bynnag, mae hyn yn galluogi amlygu'r angen i ddatblygu mwy o dystiolaeth o effaith a gwneud hyn yn ganolog i waith yr ysgol.

Pan fydd y farn fod cynnydd yn gyfyngedig (coch), mae hyn yn debygol o fod am nad oes camau'n cael eu cymryd yn ddigon trylwyr neu gyflym, neu fod diffyg eglurder, neu fod diffyg gweithgarwch dilynol neu fonitro gwan. Mae'n debygol y bydd angen mwy o waith ar dystiolaeth am effaith, ac efallai na fydd yr angen i ddarparu hyn yn ddigon amlwg ym meddwl yr ysgol. Ym mhob achos, dylai'r partneriaid gwella sicrhau bod y sylwadau yn yr adroddiad cynnydd yn cynnig esboniad am y farn a ddefnyddir.

Wrth roi sylwadau ar gryfderau a gwendidau mewn nodiadau ymweliadau ysgol ac adroddiadau gwerthuso ar gyfer gwella, dylai'r partneriaid gwella a phersonél fod mor benodol ag y bo modd. Er enghraifft, mae'n fwy defnyddiol datgan "nid yw sgiliau disgyblion mwy abl mewn ysgrifennu perswadiol wedi'u datblygu'n ddigonol" na dweud "mae gwendidau mewn Saesneg".

Mae dweud "Mae disgyblion yn setiau 2 a 3 yn arddangos gwendidau mewn deall cymhareb o hyd a defnyddio Theorem Pythagoras" yn fwy defnyddiol na "mae gwendidau parhaus mewn mathemateg". Mae hefyd yn ddefnyddiol rhoi syniad am nifer/cyfran y disgyblion sy'n sicr/ ddim yn sicr o gyflawni deilliannau disgwylidig i fod yn gofnod ar gyfer monitro yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu agenda gliriach ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, cyfrifoldebau a graddfeydd amser.

Dylai statws CAG adlewyrchu'r barnau sy'n cael eu llunio yn adran gwerthusiad yr adroddiad cynnydd.



Gwyrdd	<p>Cynnydd da iawn</p> <p>Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth/ argymhelliad ym mhob ffordd. Nid oes angen sylw pellach ar unrhyw agweddau. Gwelir effaith dda iawn ar safonau a chynnydd disgyblion/ ansawdd y ddarpariaeth/ agweddau ar arweinyddiaeth. Mae gallu'r ysgol i gynnal yr arfer gwell hwn ac adeiladu arno, yn dda iawn.</p>
Melyn	<p>Cynnydd cryf</p> <p>Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth/ argymhelliad yn y rhan fwyaf o ffyrdd. Mae angen rhoi sylw i fân agweddau yn unig. Gwelir effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd disgyblion/ ansawdd y ddarpariaeth/ agweddau ar arweinyddiaeth. Cwmpaswyd y rhan fwyaf o agweddau eisoes, ac ychydig iawn o waith arwyddocaol sydd ar ôl i'w wneud. Mae gallu'r ysgol i gynnal yr arfer gwell hwn ac adeiladu arno, yn dda.</p>
Ambr	<p>Cynnydd boddhaol</p> <p>Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth/ argymhelliad mewn llawer o ffyrdd. Mae angen rhoi sylw sylweddol o hyd i ychydig o agweddau pwysig. Nid yw'r effaith ar safonau a chynnydd disgyblion/ ansawdd y ddarpariaeth/ agweddau ar arweinyddiaeth yn ddigon cryf eto. Eir i'r afael â llawer o agweddau, ond mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd mewn meysydd pwysig.</p>
Coch	<p>Cynnydd cyfyngedig</p> <p>Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion y flaenoriaeth/ yr argymhelliad. Mae angen rhoi sylw i lawer o agweddau pwysig, neu bob un ohonynt. Prin yw'r effaith ar safonau a chynnydd disgyblion/ ansawdd y ddarpariaeth/ agweddau ar arweinyddiaeth, neu nid yw'n amlwg. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd ac mae angen mynd i'r afael â llawer o agweddau o hyd. Nid yw'r ysgol yn dangos gallu digon cryf eto i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol.</p>

Atodiad 4: Amserlen Tasgau Allweddol y Partneriaid Gwella

Bydd y fframwaith isod yn cynnwys ffocws ar effaith cloi i lawr ar ddysgu a lles disgyblion. Strwythur y deialog o amgylch 5 cwestiwn sylfaenol i'w hymchwilio:

- Beth yw gwerthusiad yr ysgol o'r agwedd hon?
- Sut maen nhw'n gwybod?
- Beth maen nhw'n ei wneud / cynllunio i'w wneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion?
- Sut maen nhw'n gwerthuso llwyddiant eu cynlluniau?
- Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw?

Tymor yr Hydref 2020

	Hanner Tymor yr Hydref 1	Hanner Tymor yr Hydref 2
Pob ysgol (Swyddogaethau Cymorth Craidd)	<p>Cytuno ar flaenoriaethau gwella ysgolion a chyd-lunio cynllun ar gyfer cefnogaeth.</p> <p>Dyraniad gwariant a monitro effaith PLG a PDG</p> <p>Cydweithio â chydweithwyr ALL a CCD</p> <p>Trafodaeth i sefydlu, cefnogi ac annog hyder i gefnogi arweinwyr i gynnal eu lles eu hunain a lles eu staff a'u dysgwyr. Cyfeirio lle bo hynny'n briodol i raglenni a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol</p>	<p>Datblygiad pellach o addysgeg dysgu o bell / cyfunol perthnasol ac ystyrllon</p> <p>Adolygu amcanion perfformiad pennaeth a chytuno ar amcanion ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol</p> <p>Adroddiad cynnydd ac adolygiad o'r sefyllfa bob hanner tymor neu bob tymor y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALL</p> <p>Cydweithio â chydweithwyr ALL a CCD</p> <p>Trafodaeth i werthuso effeithiolrwydd y rôl CADY newydd fel y disgrifir yn y Ddeddf diwygio ADY</p>
Ysgolion sy'n derbyn cymorth estynedig	<p>Dechrau monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun gwella ysgolion</p> <p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth frocer gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol</p> <p>Adroddiad cynnydd hanner tymor ac adolygiad o'r sefyllfa y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALL</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALL</p>	<p>Monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun gwella ysgolion</p> <p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth frocer gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol</p> <p>Adroddiad cynnydd ac adolygiad sefyllfa bob hanner tymor neu bob tymor a gytunwyd gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolydd yr ALL</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALL</p>

Tymor y Gwanwyn 2021

	Hanner Tymor y Gwanwyn 3	Hanner Tymor y Gwanwyn 4
Pob ysgol (Swyddogaethau Cymorth Craidd)	<p>Monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun gwella ysgolion</p> <p>Geithgaredd gwerthuso gan yr ysgol gyda chyfranogiad partneriaid gwella a'r opsiwn i gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid</p> <p>Gwerthuso effaith gwariant PLG a PDG</p> <p>Cydweithio â chydweithwyr ALI a CCD</p> <p>Trafodaeth i ganolbwyntio ar symud tuag at ansawdd ac effeithiolrwydd Lles, Dysgu ac Addysgu ac Arweinyddiaeth. Cyfeirio lle bo hynny'n briodol i raglenni a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.</p>	<p>Mae'n debygol y bydd deialog yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth a darpariaeth ar gynnydd ac effeithiolrwydd paratodau ysgol ac ymateb i ofynion a disgwyliadau dulliau dysgu o bell / cyfunol</p> <p>Trafodaeth i werthuso effeithiolrwydd y rôl CADY newydd fel y disgrifir yn y Ddeddf diwygio ADY</p>
Ysgolion sy'n derbyn cymorth estynedig	<p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth a frocerwyd gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol</p> <p>Adroddiad cynnydd hanner tymor ac adolygiad o'r sefyllfa y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALI</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALI.</p>	<p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth a frocerwyd gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol.</p> <p>Adroddiad cynnydd ac adolygiad o'r sefyllfa bob hanner tymor neu bob tymor y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALI</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALI</p> <p>Cefnogi'r Corff Llywodraethu i adolygu cynnydd yn erbyn amcanion perfformiad pennaeth</p>

Tymor yr Haf 2021

	Hanner Tymor yr Haf 5	Hanner Tymor yr Haf 6
Pob ysgol (Swyddogaethau Cymorth Craidd)	<p>Deialog i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd hunanarfarnu a chynllunio gwella ysgolion</p> <p>Monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun gwella ysgolion</p> <p>Gweithgaredd gwerthuso gan yr ysgol gyda chyfranogiad partneriaid gwella a'r opsiwn i gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid</p> <p>Cynllunio'r gwariant PLG a PDG</p> <p>Cydweithio â chydweithwyr ALL a CCD</p> <p>Trafodaeth i ganolbwyntio ar ansawdd ac effeithiolrwydd Lles, Dysgu ac Addysgu ac Arweinyddiaeth. Cyfeirio lle bo hynny'n briodol i raglenni a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.</p>	<p>Adolygiad cyflawn o effaith blaenoriaethau cyfredol a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol gan gynnwys nodi cefnogaeth bosibl</p> <p>Mae'n debygol y bydd deialog yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth a darpariaeth ar gynnydd ac effeithiolrwydd paratodau ysgol ac ymateb i ofynion a disgwyliadau dulliau dysgu o bell / cyfunol</p> <p>Trafodaeth i werthuso effeithiolrwydd y rôl CADY newydd fel y disgrifir yn y Ddeddf diwygio ADY</p>
Ysgolion sy'n derbyn cymorth estynedig	<p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth a frocerwyd gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol</p> <p>Adroddiad cynnydd hanner tymor ac adolygiad o'r sefyllfa y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALL</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALL.</p>	<p>Sicrhau ansawdd effaith cefnogaeth a frocerwyd gyda'r pennaeth a llywodraethwyr fel sy'n briodol</p> <p>Adroddiad cynnydd ac adolygiad o'r sefyllfa bob hanner tymor neu bob tymor y cytunwyd arno gyda'r ysgol, y prif bartner gwella a chynrychiolwyr yr ALL</p> <p>Trafodaethau rheolaidd a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm cymorth a'r ALL.</p>

Atodiad 5: Enghraifft o Waith Partneriaid Gwella mewn Ysgol Gyfartalog

Enghraifft 1

Cyd-destun ysgol: Mae hon yn ysgol gynradd sydd yn hanesyddol wedi bod yn gymharol uchel ei chyflawniad ac wedi bod yn ysgol felen. Roedd ymgysylltiad disgyblion yn ystod y cyfnod estynedig o gau ysgol yn amrywiol ac mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd bod yn ôl yn yr ysgol yn llawn amser. Bu uwch dîm arweinyddiaeth cyson ond mae rhai newidiadau yn y tîm arweinwyr canol a dau ANG eleni. Dyma'r ail flwyddyn i'r Partner Gwella gefnogi'r ysgol.

Tymor yr Hydref				
Cyswllt	Pobl sy'n cymryd rhan	Gweithgareddau	Amser	Camau gweithredu dilynol
1	PG Pennaeth UDA os yn briodol	<ul style="list-style-type: none"> Gwirio ailagor ac i weld a oes unrhyw gefnogaeth neu bryderon ar unwaith yn cael eu codi. Gwirio les y pennaeth, staff a disgyblion. Esbonio'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn academiaidd a'r gefnogaeth sydd ar gael mewn perthynas â blaenoriaethau CGY Trefnu'r dyddiad gyda'r llywodraethwyr ar gyfer Rheoli Perfformiad y Pennaeth Trefnu'r dyddiad i weithio trwy'r blaenoriaethau gwella gyda'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) fel sy'n briodol. 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera cefnogaeth
2	PG Pennaeth Panel Llywodraethwyr Rheoli Perfformiad y Pennaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r llywodraethwyr i wneud Rheoli Perfformiad y Pennaeth Trefnu dyddiad ar gyfer monitro cynnydd gyda'r amcanion yn nhymor y gwanwyn 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi dyddiad y cyfarfod ar EFI <p>Cadeirydd y panel i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Fod yn gyfrifol am y panel arfarnu a chofnodi'r cyfarfod

Tymor yr Hydref				
3	PG Pennaeth UDA os yn briodol	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r CGY a nodi meysydd cryfder a meysydd a allai fod angen cymorth ychwanegol. • Trafodaethau gyda'r Pennaeth/UDA am y gefnogaeth sydd ei hangen, a sut orau i ddefnyddio'r gefnogaeth. • Trafodaeth ynghylch sut y bydd unrhyw gymorth (brocera neu fewnol) yn cael ei fonitro ac adolygu'r effaith, gan gynnwys rôl PG wrth herio cynnydd yn erbyn y CGY. • Trafodaeth ynghylch dyrannu ac effaith grantiau e.e. GDD, DP. 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddarau'r EFI • Brocera cefnogaeth ar y cyd â'r Prif Bartner Gwella a CCD
4	Staff CCD / staff o ysgolion eraill sy'n arwain y gefnogaeth Cyswllt allweddol yn yr ysgol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio rhaglen gefnogaeth bwrpasol gyda'r ysgol 	3 awr	Staff sy'n darparu cefnogaeth i: <ul style="list-style-type: none"> • Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG
5	PG a/neu staff gwella ysgolion CCD sy'n cefnogi'r ysgol Staff ysgol dynodedig	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen o gefnogaeth ysgol a dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r CGY ac yn ôl anghenion yr ysgol 	3 awr	PG a/neu staff gwella ysgol CCD i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddarau'r EFI

Tymor y Gwanwyn				
Cyswllt	Pobl sy'n cymryd rhan	Gweithgareddau	Amser	Camau gweithredu dilynol
6, 7 a 8	PG Staff CCD fel sy'n briodol Pennaeth UDA Aelodau allweddol o staff	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio ochr yn ochr â'r ysgol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o effaith arweinwyr a strategaethau cymorth allanol ar y canlyniadau yn y CGY Adolygu cefnogaeth a ddarperir i ddiwallu angen esblygol staff a disgyblion. Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD 	3 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Diwygio unrhyw froceriaeth/cefnogaeth
9	PG Pennaeth Panel Llywodraethwyr Rheoli Perfformiad Pennaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi adolygiad o berfformiad y Pennaeth 	1 - 2 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi dyddiad y cyfarfod ar EFI Cadeirydd y panel i: <ul style="list-style-type: none"> Fod yn gyfrifol am y panel arfarnu a chofnodi'r cyfarfod

Tymor yr Haf				
Cyswllt	Pobl sy'n cymryd rhan	Gweithgareddau	Amser	Camau gweithredu dilynol
10 a 11	PG Staff CCD fel sy'n briodol Pennaeth UDA Aelodau allweddol o staff	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio ochr yn ochr â'r ysgol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o effaith arweinwyr a strategaethau cymorth allanol ar y canlyniadau yn y CGY Bydd cefnogaeth yn cael ei hadolygu ac yn parhau neu'n cael ei newid i ddiwallu angen esblygol staff a disgyblion. Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD 	9 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Diwygio unrhyw froceriaeth/cefnogaeth
12	PG Pennaeth UDA	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno adroddiad i'r Corff Llywodraethu i roi tystiolaeth am gynnydd yn erbyn y CGY 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI

Enghraifft 2

Cyd-destun ysgol: Mae hon yn ysgol gynradd sydd yn hanesyddol wedi cael ei chategoreiddio fel ysgol goch ac yn dilyn arolygiad Estyn mae wedi'i rhoi yn y categori statudol sy'n gofyn am Fesurau Arbennig. Bu newid eithaf sylweddol i uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol gyda phennaeth newydd a dirprwy bennaeth yn ei le. Yn dilyn llythyr rhybuddio ALI, mae'r corff llywodraethu hefyd wedi newid yn sylweddol, mae cadeirydd llywodraethwyr ac is-gadeirydd llywodraethwyr newydd sydd ill dau yn dod o gefndir busnes. Mae'r PG wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol ychydig ar ôl arolygiad Estyn ac wedi datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r tîm arweinyddiaeth ysgol newydd. Yn ystod y cyfnod cloi, roedd gan y PG gyswllt rheolaidd â'r pennaeth i wirio lles. Roedd ymgysylltiad disgyblion mewn dysgu o bell yn eithaf isel ac roedd llawer o staff yn ei chael hi'n anodd defnyddio llwyfannau dysgu digidol.

Tymor yr Hydref				
Cyswllt	Pobl sy'n cymryd rhan	Gweithgaredd	Amser	Camau gweithredu dilynol
1	PG Pennaeth UDA os yn briodol	<ul style="list-style-type: none"> Gwirio ailagor ac i weld a oes unrhyw gefnogaeth neu bryderon ar unwaith yn cael eu codi. Gwirio lles y Pennaeth, staff a disgyblion. Esbonio'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn academiaidd a'r gefnogaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygu (PIAP) Trefnu dyddiad gyda llywodraethwyr ar gyfer Rheoli Perfformiad y Pennaeth Trefnu dyddiad i weithio trwy'r camau o fewn y PIAP yn ogystal â gosod cyfres o ddyddiadau monitro i adolygu cynnydd ac, os oes angen, adolygu gweithredoedd o fewn y PIAP. Trafod y dyddiadau a bennwyd ar gyfer cyfarfodydd adolygu cynnydd ac ymweliadau Estyn. Sicrhau y bydd sesiynau monitro wedi'u cynllunio yn casglu tystiolaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer cyflwyno adroddiadau ffurfiol ac yn helpu i lunio barn gywir am gynnydd 	5 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera cefnogaeth Rhoi gwybod i'r PBG os oes pryderon

Tymor yr Hydref				
2	PG Pennaeth Panel Llywodraethwyr Rheoli Perfformiad Pennaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r llywodraethwyr i gyflawni Rheoli Perfformiad y Pennaeth Trefnu dyddiad ar gyfer monitro cynnydd amcanion yn nhymor y gwanwyn 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi dyddiad y cyfarfod ar EFI Cadeirydd y panel i: <ul style="list-style-type: none"> Fod yn gyfrifol am y panel arfarnu a chofnodi'r cyfarfod
3	PG Pennaeth Corff Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> Mynychu cyfarfod y corff llywodraethu llawn trwy wahoddiad y Pennaeth. 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera cefnogaeth i holl aelodau'r Corff Llywodraethu - mynediad at hyfforddiant e-ddysgu i sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o'u rôl. Mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn y dyfodol fel arsylwr diduedd
4	PG Pennaeth UDA os yn briodol	<ul style="list-style-type: none"> Trafod y camau yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Adolygu a nodi meysydd a allai fod angen cymorth ychwanegol. Trafodaethau gyda'r Pennaeth/UDA am y gefnogaeth sydd ei hangen, a sut orau i ddefnyddio'r gefnogaeth. Trafodaeth ynghylch sut y bydd cefnogaeth brocer yn cael ei monitro, ac effaith yn cael ei hadolygu, gan gynnwys rôl barhaus PG wrth herio cynnydd yn erbyn y PIAP. Trafodaeth ynghylch dyrannu ac effaith grantiau e.e. GDD, DP. 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera cefnogaeth sydd ei angen ar y cyd â'r PBG a CCD

Tymor yr Hydref				
5 a 6	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCD - yn ôl yr angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â chymau gweithredu yn y datganiad gweithredu PIAP a awdurdod lleol. • Gweithio i ddatblygu arweinwyr canol i'w helpu i fod yn gyfrifol am weithgareddau penodol yn y PIAP • Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson 	2 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddarau'r EFI • Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i: <ul style="list-style-type: none"> • Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG • Diweddarau'r EFI gyda'r camau gweithredu, arfarniad ac effaith
7	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	Cyfarfod cynnydd hanner tymor yr Hydref 1 <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar ddyfarniadau cynnydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Pennaeth a'r PG • Cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddarau'r adroddiad adolygu hanner tymhorol • Ymateb i gamau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod

Tymor yr Hydref				
8, 9, 10 a 11	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCD - yn ôl yr angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fynd i'r afael â chamau gweithredu yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Gweithio i ddatblygu arweinwyr canol i'w helpu i fod yn gyfrifol am weithgareddau penodol yn y PIAP Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson 	3 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i: <ul style="list-style-type: none"> Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG Diweddarau'r EFI gyda'r camau gweithredu, arfarniad ac effaith
12	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	Cyfarfod cynnydd hanner tymor yr Hydref 2 <ul style="list-style-type: none"> Monitro unrhyw gamau y cytunwyd arnynt o gyfarfod cynnydd hanner tymor cyntaf Adolygu canlyniadau ac effaith y camau a gymerwyd trwy gydol tymor yr hydref Cytuno dyfarniad cynnydd ar gyfer pob argymhelliad. Cytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol Mireinio (lle bo angen) y PIAP i roi ffocws craffach ar feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r adroddiad cynnydd Ymateb i gamau gweithredu o'r cyfarfod Mireinio'r PIAP

Tymor y Gwanwyn				
13, 14, 15, 16	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCD - yn ôl angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fynd i'r afael â chamau gweithredu yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD 	4 x 3 awr	<p>PG i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD <p>Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG Diweddarau'r EFI gyda'r camau gweithredu, arfarniad ac effaith
17	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	<p>Cyfarfod cynnydd hanner tymor y Gwanwyn 1</p> <ul style="list-style-type: none"> Monitro unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn barhaus Cytuno ar ddyfarniadau cynnydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Pennaeth a'r PG Cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol 	3 awr	<p>PG i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r adolygiad hanner tymhorol Ymateb i gamau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod

Tymor y Gwanwyn				
18, 19, 20, 21, 22	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCd - yn ôl yr angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fynd i'r afael â chymau gweithredu yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD Mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodaethu fel arsylwr 	5 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD <p>Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG Diweddarau'r EFI ar y camau gweithredu, arfarniad ac effaith
23	Pennaeth PG Panel Llywodraethwyr Rheoli Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi adolygiad Rheoli Perfformiad y Pennaeth 	1 – 2 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi dyddiad y cyfarfod ar yr EFI <p>Cadeirydd y panel i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi canfyddiadau'r cyfarfod adolygu
24	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	<p>Cyfarfod cynnydd hanner tymor y Gwanwyn 2</p> <ul style="list-style-type: none"> Monitro unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn barhaus Adolygu canlyniadau ac effaith y camau a gymerwyd trwy gydol tymor yr hydref Cytuno dyfarniad cynnydd ar gyfer pob argymhelliad. Cytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol Mireinio (lle bo angen) y PIAP i roi ffocws craffach ar feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r adroddiad cynnydd Ymateb i gamau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod Mireinio'r PIAP (os oes angen)


Tymor yr Haf				
25, 26, 27, 28	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCD - yn ôl yr angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fynd i'r afael â champau gweithredu yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD Mynychu cyfarfod y Corff Llywodraethu fel arsylwr 	4 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i: <ul style="list-style-type: none"> Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r gefnogaeth i'r PG Diweddarau'r EFI ar y camau gweithredu, arfarniad ac effaith
29	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	Cyfarfod cynnydd hanner tymor yr Haf 1 <ul style="list-style-type: none"> Monitro unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn barhaus Cytuno ar ddyfarniadau cynnydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Pennaeth a'r PG Cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r adroddiad adolygu hanner tymhorol Ymateb i gamau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod

Tymor yr Haf				
30, 31, 32	PG Pennaeth UDA os yn briodol Tîm gwella ysgolion CCD - yn ôl yr angen yn y PIAP	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fynd i'r afael â chamau gweithredu yn y PIAP a datganiad gweithredu awdurdodau lleol. Adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau gweithredoedd i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn argymhellion yn gyson Trafod ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â blaenoriaethau ychwanegol y gofynnir iddynt eu codi gyda'r ysgol e.e. Deddf ADY, Grant DP, GDD 	3 x 3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r EFI Brocera unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyd â'r PBG a CCD Staff CCD sy'n darparu cefnogaeth i: <ul style="list-style-type: none"> Anfon cynllun gweithredu sy'n amlinellu cefnogaeth i'r PG Diweddarau'r EFI gyda'r camau gweithredu, arfarniad ac effaith
33	Pennaeth Panel Llywodraethwyr Rheoli Perfformiad y Pennaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi adolygiad Rheoli Perfformiad y Pennaeth 	1 – 2 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi dyddiad y cyfarfod ar y EFI Cadeirydd y panel i: <ul style="list-style-type: none"> Gofnodi canfyddiadau'r cyfarfod
34	PG PBG Pennaeth UDA Cadeirydd llywodraethwyr Cynrychiolydd ALI	Cyfarfod cynnydd hanner tymor yr Haf 2 <ul style="list-style-type: none"> Monitro unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn barhaus Adolygu canlyniadau ac effaith y camau a gymerwyd trwy gydol y flwyddyn academaidd Cytuno dyfarniad cynnydd ar gyfer pob argymhelliad. Cytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol Mireinio (lle bo angen) y PIAP i roi ffocws craffach ar feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach 	3 awr	PG i: <ul style="list-style-type: none"> Ddiweddarau'r adroddiad cynnydd Ymateb i gamau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod Mireinio'r PIAP (os oes angen)

Atodiad 6: Ceisiadau am Gyllid Pwrpasol i Gynorthwyo Ysgolion

Nodi Cymorth: mae'r Partner Gwella (PG) neu'r Ymgynghorydd Strategol (YS) yn nodi'r angen am gymorth ychwanegol i'r ysgol. Gall hyn fod trwy wybodaeth y PG, yr YS, awdurdodau lleol neu yn dilyn trafodaethau ag asiantaethau sy'n ymgysylltu â'r ysgol. Gellir nodi angen hefyd yn dilyn:

- Arolygiad Estyn, ymweliad dilynol Estyn
- Canfyddiadau adolygiad
- Cyfarfodydd perfformiad Awdurdod Lleol (AL)



Atodiad 7: Adolygu, Nodi a Chasglu Tystiolaeth am Effaith

1. Nodi'r angen am welliant

- Cynllun Datblygu Ysgol: ai nhw yw'r blaenoriaethau cywir?
- A yw MER yn ddefnyddiol ac yn gywir?
- Pa dystiolaeth sydd wedi llywio'r blaenoriaethau?
- A yw blaenoriaethau a nodwyd yn benodol ac yn rhai CAMPUS?

2. Beth yw canlyniad disgwylidig y gefnogaeth i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau?

- Ydyn ni'n glir ynghylch sut fydd y canlyniadau?

3. Beth sydd angen ei wneud?

- A yw CCD yn brocera ac yn cydlynu neu'n cyflwyno'r gefnogaeth?
- A yw'r camau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn briodol?
- A oes angen cerrig milltir?

4. Casglu tystiolaeth barhaus

- Sut mae sicrhau bod gwaith ar y trywydd iawn?
- A fydd y Prif Bartneriaid Gwella yn trafod ac yn cofnodi cynnydd yn ystod cyfarfodydd 1:1 gyda Phartneriaid Gwella?
- Adroddiadau Perfformiad yr ALI
- EFI

5. A gyflawnwyd y canlyniadau disgwylidig?

- A allwn ni ddangos tystiolaeth o effaith?
- Sut? Trwy fonitro parhaus?
- A yw ein gwerthusiad yn grynhoed o adolygiadau cynnydd a gwybodaeth fonitro parhaus?